Y Cynllun Corfforaethol

2017 — 2022

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dogfen Dechnegol

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Tabl cynnwys

1	Rhagair	3
2	Cymryd Rhan	4
3	Ein Gweledigaeth a Gwerthoedd	5
4	Crynodeb o'n Blaenoriaethau a chynlluniau	6
5	Ein Blaenoriaethau	9
Atodiad Technegol		
6	Pwrpas y Cynllun	32
7	Sgwrs y Sir	35
8	Datganiad Lles a Datganiad o Gyfrifoldeb	40
9	Rheolaeth Ariannol	42
10	Monitro cynnydd ac adrodd ar gyflawniadau	43
11	Adolygiad rheolaidd – sgwrs barhaus	43
12	Ble i ganfod mwy o wybodaeth	44

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

Mae fideo BSL ar gael ar gyfer y ddogfen hon ar y wefan www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol

1 Rhagair

Croeso i Gynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r meysydd allweddol rydym am ganolbwyntio arnynt dros 5 mlynedd nesaf o weinyddiaeth y Cyngor. Mae'r blaenoriaethau wedi cael eu dewis ar ôl ymgysylltu â Chymunedau, Busnesau, Aelodau Etholedig a Staff sydd wedi dweud wrthym beth sy'n bwysig iddyn nhw trwy 'Sgwrs y Sir'.
Drwy wneud gwelliannau yn y meysydd blaenoriaeth, ein nod yw gweld newid cadarnhaol a chyfleoedd newydd, nid ar gyfer cymunedau heddiw yn unig, ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal.

Nod y blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol yw bod yn flaengar ac arloesol, ond ni ellir eu diwallu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unig, yn enwedig mewn cyfnod ariannol anodd o'r fath, felly mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i wneud i'r gwelliannau ddigwydd. Mae hyn yn mynd i fod yn newid mawr, a gobeithio, yn newid cyffrous mewn diwylliant i bawb - mae'n rhaid i ni symud i ffwrdd o fodelau traddodiadol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a meddwl yn arloesol i ddiwallu anghenion newidiol cymunedau os ydym yn mynd i gadw gwasanaethau cynaliadwy. Bydd angen i ni wneud y defnydd gorau o dechnoleg ac ystyried ffyrdd amgen o ofalu am yr asedau cymunedol a gwasanaethau sy'n gwneud Sir Conwy mor arbennig. Bydd angen i bawb groesawu newid, ac yn ffodus mae gan gymunedau ledled Sir Conwy hanes o wneud hynny.

Rydym wedi cadw'r cynllun mor fyr â phosibl er mwyn i ni anfon neges glir am y meysydd blaenoriaeth, ond mae cynlluniau mwy manwl yn ategu pob maes ar gael, ac mae modd i chi eu darllen os hoffech chi ragor o wybodaeth. Rydym hefyd wedi cynhyrchu fersiwn gryno o'r cynllun. Rydym yn ymwybodol bod 5 mlynedd yn amser hir, a gall llawer ddigwydd yn ystod y cyfnod yma. Yn sgil hynny felly, bob blwyddyn byddwn yn gofyn i gymunedau os ydi'r blaenoriaethau dal yn gywir a byddwn yn eu hadolygu os oes angen eu haddasu. Yn yr un modd, rydym eisiau dweud wrth gymunedau, beth sydd wedi cael ei gyflawni, a bob mis Hydref byddwn yn darparu'r newyddion diweddaraf ar ffurf adroddiad blynyddol. Fodd bynnag, nid ydym eisiau aros am ddigwyddiad blynyddol i glywed eich barn chi - os oes gennych syniadau, neu eisiau cymryd rhan i wneud newid cadarnhaol yn eich cymuned, rhowch wybod i ni.

Y Cynghorydd Gareth Jones
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2 Cymryd Rhan

Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi cael ei lunio ar ôl siarad â chymunedau. Yn ystod haf 2016, fe lansiwyd **Sgwrs y Sir**. Fe wnaethom siarad â grwpiau cymunedol lleol a gwahodd pobl i rannu eu syniadau ar-lein. Fe wnaethom ddefnyddio'r adborth hwn i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol. Rydym eisiau parhau â'r sgwrs hon - rydym am glywed eich syniadau ynghylch sut y gellir gwella gwasanaethau a byddwn yn defnyddio Sgwrs y Sir fel dull y gallwch rannu syniadau, a gallwn barhau i weithio gyda chi ar ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Byddwn yn llunio cynllun gwaith i'r dyfodol fel y gallwch ddewis sut a phryd yr ydych am gymryd rhan. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni.

Gallwch ymuno â **Sgwrs y Sir** i rannu eich safbwyntiau a'ch syniadau ynglŷn â'r Sir neu eich ardal leol.

Sgwrs y Sir The County Conversation

Cliciwch yma i ymuno! Click here to join in!

www.conwy.gov.uk/sgwrsysir

www.conwy.gov.uk/countyconversation

www.facebook.com/sgwrsconwyconvo/

@sgwrsconwyconvo

Rydym eisiau clywed barn Pobl Ifanc

Nid siarad gydag oedolion yn unig yw dweud eich dweud. Ein pobl ifanc yw'r genhedlaeth nesaf ac rydym am glywed eich barn chi hefyd! Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i ti o ran penderfyniadau sy'n effeithio arnat ti. Rydym ni hefyd yn meddwl am ein prosiectau a'n syniadau ein hunain, ac yn datblygu pethau sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc yng Nghonwy. Os hoffech chi gymryd rhan:
https://www.facebook.com/CyngorIeuenctidConwyYouthCouncil

Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

cidt@conwy.gov.uk

01492 574000

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain a braille.

Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol

3 Ein Gweledigaeth a Gwerthoedd

Ein Gweledigaeth

Conwy – Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

Rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, o addysgu plant, gofalu am bobl ddiamddiffyn, ailgylchu gwastraff, rheoleiddio busnesau, i ddarparu cyfleusterau hamdden a pherfformiadau theatr i enwi ond ychydig. Rydym am fod yn flaengar a chreadigol ymhob agwedd o ddarparu gwasanaeth, fel ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael i sir Conwy.

I gyflawni'r weledigaeth hon, bydd y Cabinet yn ymdrechu i Gonwy fod yn:

Sir ffyniannus, gysylltiedig, teg a chynaliadwy lle mae lles, cydraddoldeb, pryder am yr amgylchedd a'n diwylliant yn sail i benderfyniadau ac yn gwella bywydau.

Y Ffordd Rydym yn Gweithio - Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn cynrychioli cred ein sefydliad ac ymddygiad disgwyliedig gan bawb sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ein Gwerthoedd yw:

Rydym yn gofalu am yr hyn rydym yn ei wneud

Rydym yn deg â phawb

Rydym yn arloesol

Rydym yn chwaraewyr tîm

4 Crynodeb o'n Blaenoriaethau a'n Cynlluniau

Pobl yng Nghonwy:

Canlyniad Dinesydd	Maes Ffocws
1 Wedi'u haddysgu ac yn fedrus.	Rydym am i Gonwy gael ei gydnabod am gynnig addysg ardderchog. Byddwn yn canolbwyntio ar wella addysg a pherfformiad ar draws y system ysgol gyfan fel bod pobl ifanc yn fedrus ac yn barod am gyfleoedd swyddi.
2 Yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.	Gyda'n gilydd byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu.
3 Yn cael mynediad at lety fforddiadwy, priodol, o ansawdd da sy'n gwella ansawdd eu bywydau.	Rydym am i drigolion fyw mewn llety sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles cadarnhaol.
4 Yn iach ac egnïol.	Byddwn yn canolbwyntio ar gamau i hyrwyddo dewisiadau a ffyrdd iach o fyw ac yn ei dro, yn lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus.
5 Yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus.	Rydym am i'r economi leol i fod yn hyderus, gwydn a chynaliadwy. Byddwn yn annog syniadau newydd a byddwn yn gweithio'n rhagweithiol gyda busnesau i hyrwyddo amodau lle gallant dyfu.
6 Yn werthfawrogi a gofalu am yr amgylchedd.	Rydym am i gymunedau fod yn gadarn ac yn barod i addasu i'r heriau amgylcheddol sy'n wynebu'r byd. Byddwn yn canolbwyntio ar wella amddiffynfeydd rhag llifogydd, cynyddu ailgylchu a buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.
7) Byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.	Byddwn yn canolbwyntio ar ddathlu ein diwylliant ac yn defnyddio'r celfyddydau i wneud y mwyaf o les.
8 Yn cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.	Byddwn yn canolbwyntio ar adolygu'r ffordd rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda chymunedau. Byddwn yn newid y ffordd rydym yn gweithio i fod yn fwy blaengar, modern ac effeithlon.

Themâu Trawsbynciol

Ar draws pob maes gwaith, byddwn yn sicrhau ein bod yn anelu at ddiwallu anghenion presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn ymdrechu i wneud y penderfyniadau gorau y gallwn yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol sy'n ein hwynebu. Byddwn yn ystyried effaith polisïau ar gymunedau gwledig, y rhai a ddiogelir o dan ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a phobl sy'n byw mewn tlodi.

Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn adeiladu hyder i fod yn flaengar. Bydd harneisio potensial technoleg i wella perfformiad, prosesau busnes ac effeithlonrwydd yn flaenoriaeth strategol dros y pum mlynedd nesaf.

Ein Cynlluniau - sut mae'r cyfan yn gweithio

Pwrpas y cynllun hwn yw cyflwyno Blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y pum mlynedd nesaf, rhwng 2017 a 2022. Y blaenoriaethau ydi'r meysydd rydym eisiau rhoi sylw arbennig iddynt er mwyn cyflawni'r canlyniadau dinasyddion y mae pobl eu heisiau ar gyfer y sir. Mae gennym gynlluniau eraill sydd yn manylu ar y tasgau penodol y byddwn yn ymgymryd â nhw, ac maent wedi'u rhestru o dan bob Canlyniad. Ni all y Cynllun Corfforaethol restru pob dim rydym yn ei wneud, ond nid yw hynny'n golygu nad yw'r gwasanaethau sydd heb eu rhestru yn bwysig. Mae'r meysydd ffocws yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gwasanaeth sydd yn nodi gwaith ehangach 'busnes arferol' y bydd yr Awdurdod yn parhau i'w cyflawni ochr yn ochr â'r blaenoriaethau.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ymgorffori Datganiad Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a amlinellir ar dudalen 40.

Mae ein cynlluniau yn cael eu hamlinellu ar y dudalen nesaf.

Mae fersiwn gryno o'r Cynllun Corfforaethol ar gael hefyd.

Ein Cynlluniau:

5 Ein Blaenoriaethau

1) Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

'Rydym am i Gonwy gael ei gydnabod fel sir sy'n cynnig addysg wych. Byddwn yn canolbwyntio ar wella addysg a pherfformiad ar draws y system ysgolion gyfan fel bod pobl ifanc yn meddu ar sgiliau ar gyfer cyfleoedd swyddi.

Y dyfodol - trwy ganolbwyntio ar y system ysgolion gyfan, mae ein plant yn ddysgwyr galluog uchelgeisiol. Maent yn unigolion hyderus iach sy'n chwarae rhan weithgar mewn cymunedau ac sy'n fedrus ac yn barod ar gyfer y cyfleoedd gwaith sydd ar gael.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		ADNODDAU	5 Dull o Weithio
A1.1	Gweithio gydag ysgolion i wella canlyniadau ym mhob cyfnod allweddol addysg. Byddwn yn canolbwyntio'r gefnogaeth ar grwpiau o ddysgwyr megis Plant sy'n Derbyn Gofal, y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn ogystal â herio ein myfyrwyr gorau.	Amser staff ALl/GwE Tîm Effeithlonrwydd Ysgolion<0} Cynllun Busnes Lefel 2	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A1.2	Datblygu systemau er mwyn herio a chefnogi perfformiad ysgolion ledled yr Awdurdod Lleol.	Amser staff Llywodraethwyr Cymru	Tymor hir Atal Cydweithio Cyfranogiad
A1.3	Gweithio gydag ysgolion i roi'r Fframwaith cymwyseddau digidol ar waith mewn ysgolion.	Amser staff	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A1.4	Gweithio i gael y cydbwysedd cywir - yn ogystal â gallu defnyddio TG, rhaid i bobl ifanc allu chwarae a bod yn bod yn llythrennog yn gorfforol. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o helpu i leihau gordewdra mewn plentyndod a gwella iechyd emosiynol.	Amser staff Grantiau	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin 2016/17	Targed 17/18 Blwyddyn Academaidd 2016/17 Haf 2017	Meincnod	Amlder
M1.1a	% o ddysgwyr sy'n gymwys am asesiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (lefel ddisgwyliedig Canlyniad 5) fel y penderfynir gan Athrawon.	83.9%	87%	Cymru gyfan	Blynyddol
M1.1b	% o ddisgyblion sydd heb hawl i brydau ysgol am ddim sy'n gadael yr ysgol gynradd ar ôl cyflawni lefel 4 neu uwch mewn iaith, mathemateg a gwyddoniaeth.	86.8%	89.5%	Cymru gyfan	Blynyddol
M1.1c	% o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim sy'n gadael yr ysgol gynradd ar ôl cyflawni lefel 4 neu uwch mewn iaith, mathemateg a gwyddoniaeth.	67.9%	72%	Cymru gyfan	Blynyddol

M1.1d	% disgyblion Bwrdeistref Sirol Conwy sydd heb hawl i brydau ysgol am ddim sy'n cyflawni 5 TGAU gradd A* i C (gan gynnwys Cymraeg/Saesneg, a Mathemateg)	Dim gwaelodlin (mae prawf newydd yn 17/18)	66%	Cymru gyfan	Blynyddol
M1.1e	% disgyblion Bwrdeistref Sirol Conwy sydd â hawl i brydau ysgol am ddim sy'n cyflawni 5 gradd A* i C TGAU (Cymraeg/Saesneg, a Mathemateg)	Dim gwaelodlin	40%	Cymru gyfan	Blynyddol
M1.1f	% o ddysgwyr 17 oed sydd yn cychwyn ar yr hyn sy'n cyfateb i 2 lefel A a gyflawnodd y 'Trothwy Lefel 3'.	98.3%	98%	Cymru gyfan	Blynyddol
M1.2a	Nifer o ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig/unedau sydd wedi cyfarfod â'r Grŵp Effeithiolrwydd Ysgolion a Safonau yn ystod y flwyddyn academaidd	Dim data newydd	7	Nac oes	Blynyddol
M1.2b	Nifer o ysgolion cynradd sydd wedi cyfarfod â'r Grŵp Effeithiolrwydd Ysgolion a Safonau yn ystod y flwyddyn academaidd	Dim data newydd	19	Nac oes	Blynyddol
M1.3	% o gyrsiau hyfforddi Llywodraethwyr ym mhob Blwyddyn Academaidd a sgoriodd 3 (da) neu'n well mewn adborth boddhad cwrs	Dim data newydd	gwaelodlin	Nac oes	Blynyddol
M1.4a	% y plant 11 oed sy'n gallu nofio	Dim data	95%	Cymru gyfan	Blynyddol
M1.4b	% o ddisgyblion 11 oed sy'n gallu beicio yn fedrus	Dim data	80%	Cymru gyfan	Blynyddol
M1.4c	% o blant 7-11 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o sesiynau gweithgarwch corfforol (allgyrsiol)	Dim data	60%		Blynyddol
M1.4d	% o blant 11-16 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o sesiynau gweithgarwch corfforol (allgyrsiol)	Dim data	65%	Nac oes	Blynyddol
M1.4e	% y plant sydd dros eu pwysau neu'n ordew	25.2%	Dim targed	Nac oes	Blynyddol
M1.4f	Nifer yr oriau a wirfoddolwyd gan Lysgenhadon Ifanc yng Nghonwy	Dim data	Dim targed	Cymru gyfan	Blynyddol

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Cwricwlwm Newydd i Gymru (Llywodraeth Cymru)
- Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru
- Cynllun Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE ar gyfer Conwy
- Strategaeth Iaith Gymraeg Addysg
- Cynllun Conwy Egnïol am Oes (cynllun gweithredu Llythrennedd Corfforol)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynllun Gweithredu
- Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae'r Gwasanaethau Addysg yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud y mwyaf o'u potensial ac yn barod am gyfleoedd gwaith lleol.
Mae Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn anelu i addysgu pobl am fioamrywiaeth, ailgylchu a diogelwch ffyrdd. Mae'r prosiect Ysgolion Carbon Isel yn darparu negeseuon allweddol am effeithlonrwydd ynni i ysgolion yng Nghonwy. Maent yn rheoli'r mannau agored amrywiol ledled y sir sydd yn hygyrch i blant chwarae. Maent yn darparu cludiant i 5,000 o ddisgyblion i'w cludo i'w man addysg.
Mae Gwasanaethau Datblygu Cymunedol yn cefnogi mynediad i chwaraeon drwy ein canolfannau hamdden ac maent yn arwain ar ddatblygu sgiliau ar lefel ranbarthol. Mae Tîm Datblygu Chwarae CBC yn cefnogi chwarae

awyr agored. Fel yr amlinellir isod, gall llyfrgelloedd gynnig cymorth addysgol mewn amrywiaeth o ffyrdd.
Mae'r Gwasanaeth Theatrau a Chanolfan Gynadledda yn cefnogi addysg sy'n ymwneud â chelfyddydau a diwylliant drwy eu sioeau amrywiol a chynlluniau i bobl ifanc.
Mae Gwasanaethau Datblygu Cymunedol a Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn cefnogi'r gwaith o ddyrannu safleoedd priodol ar gyfer ysgolion newydd a sicrhau bod mannau agored mewn datblygiadau tai newydd.
Mae Gofal Cymdeithasol yn cefnogi plant sy'n 'derbyn gofal' i gyflawni eu potensial, a chaiff hyn ei gefnogi gan gyfrifoldeb 'Rhianta Corfforaethol' y Cyngor cyfan.
Mae Refeniw a Budd-daliadau yn addysgu pobl am y cymorth ariannol sydd ar gael iddynt.
Mae ein gwasanaethau 'cefn swyddfa' yn cefnogi ysgolion drwy gontractau a chaffael, cymorth cyfreithiol, Adnoddau Dynol a chefnogaeth TGCh.

Sut gallwch chi gymryd rhan:

Mae noson dda o gwsg a brecwast iach yn helpu sicrhau bod plentyn yn barod i ddysgu.
http://www.booktrust.org.uk/cymru www.change4lifewales.org.uk https://www.nhs.uk/change4life-be-food-smart app

Gall darllen gyda'ch plentyn a'u helpu gyda gwaith cartref gael effaith fawr ar ba mor dda y mae plentyn yn perfformio yn yr ysgol.

Mae yna lawer yn digwydd yn eich llyfrgell leol - mae gan ein Llyfrgellwyr brofiad o gefnogi llythrennedd ategol, llythrennedd gwybodaeth, llythrennedd digidol a llythrennedd iechyd.

- Gallwch gael mynediad am ddim i'r rhyngrwyd ac adnoddau gwybodaeth.
- Gallwch ddod â'ch plant dan 5 oed i amser stori, cofrestru eich plentyn ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf, dewch â nhw i un o'n sesiynau cwrdd â'r awdur neu ymuno â'r clwb codio.
- Mae croeso i oedolion ymuno ag un o'n digwyddiadau sgiliau sylfaenol drwy gydol y flwyddyn, neu dewch i ymuno â grŵp cymdeithasol - rydym yn cynnig sesiynau gweu a ffotograffiaeth.
- Mae rhai o'n llyfrgelloedd yn cynnal nifer o wasanaethau allgymorth megis Canolfan Byd Gwaith a chyrsiau sy'n cael eu rhedeg gan Grŵp Llandrillo Menai

Ewch i www.conwy.gov.uk/llyfrgellneu ffoniwch 01492 576139 i ddod o hyd i'ch llyfrgell agosaf a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig.

Mae cadw'r cydbwysedd rhwng amser sgrin a chwarae corfforol/ymarfer corff yn bwysig hefyd.

Mae llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon yn unrhyw oedran – ewch i www.sportconwy.org.uk i gael gwybod mwy am ba weithgareddau a chlybiau sydd yn eich ardal chi. Ceir rhagor o wybodaeth am chwaraeon ar dudalen 19.

Dysgwch fwy am sesiynau 'Chwarae Allan' am ddim cvsc.org.uk/cy/cvscplaydevelopment/conwyplayingout/ a lleoedd i chwarae am ddim yng Nghonwy cvsc.org.uk/cy/cvscplaydevelopment/go-and-play-conwy-guide/

Dysgu nofio www.conwy.gov.uk/nofio
Ar gyfer hyfforddiant Beic, cysylltwch ag Adain Diogelwch y Ffyrdd roadsafety@conwy.gov.uk.
Gallwch ddod o hyd i fap llwybr Beicio Conwy yma www.conwy.gov.uk/beicio
Cysylltwch â Gwasanaeth Ieuenctid Conwy https://gicys.wordpress.com/
Mae gwybodaeth am ganolfannau hamdden ar gael yma www.conwy.gov.uk/canolfannauhamdden

Cyfrannu at Nodau Lles:



2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Gyda'n gilydd byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu.

Y Dyfodol: fel cymunedau rydym yn cadw llygad am ein gilydd ac mae pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu. Ein nod yw sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn edrych yn ôl ac yn meddwl y dylem fod wedi gwneud mwy i ddiogelu pobl.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		ADNODDAU	5 Dull o Weithio
A2.1	Byddwn yn sicrhau bod yna ymagwedd gorfforaethol gyson tuag at ddiogelu o fewn y cyngor.	Amser staff	Atal Integreiddio
A2.2	Byddwn yn adolygu ein dull o recriwtio staff yn ddiogel a chomisiynu gwasanaethau yn ddiogel.	Amser staff	Atal
A2.3	Byddwn yn adolygu trefniadau diogelu ym mhob gwasanaeth.	Amser staff	Atal Integreiddio
A2.4	Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn rhoi cynllun ar waith i helpu i atal camfanteisio.	Amser staff	Atal Cydweithio Integreiddio

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin 2016/17	Targed	Meincnod	Amlder
M2.1	% o weithwyr sy'n cwblhau'r broses Cynefino Corfforaethol o fewn amserlenni priodol	Dim data	100%	Nac oes	Blynyddol
M2.2a	% y staff sy'n dechrau mewn swydd gyda dau dystlythyr	Dim data	100%	Nac oes	Blynyddol
M2.2 b	% o staff sy'n dechrau mewn swydd lle mae angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Newydd	100%	Nac oes	Blynyddol
M2.2c	% o staff sy'n derbyn hyfforddiant diogelu o fewn 12 mis o gychwyn yn y swydd	Newydd	100%	Nac oes	Blynyddol
M2.2d	% y Cynghorwyr presennol yn mynychu hyfforddiant diogelu	100%	100%	Nac oes	Blynyddol
M2.3	Nifer o atgyfeiriadau gan aelodau o'r gymuned sy'n poeni am bobl ddiamddiffyn	Dim data newydd	Ac eithrio cynnydd	Nac oes	Blynyddol
M2.4	Nifer y cynlluniau amddiffyn sydd yn eu lle i ddiogelu yn erbyn camdriniaeth a nodwyd	59 oedolyn 69 plentyn 128 fel cyfanswm	Ac eithrio cynnydd	Nac oes	Blynyddol

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol
- Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru - Blaenoriaethau Allweddol
- Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Gogledd Cymru - Blaenoriaethau Allweddol
- Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant Gogledd Cymru
- www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/
- Cynllun Gweithredu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol – mae sefydliadau allweddol sydd wedi ymrwymo i gynyddu diogelwch cymunedol yng Nghonwy, wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n ymdrin â:
- Lleihau cam-drin domestig, lleihau argaeledd cyffuriau Dosbarth A, mynd i'r afael â throseddau amgylcheddol (baw cŵn, sbwriel a graffiti), lleihau troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol, lleihau difrod

troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleihau ail-droseddu, mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, lleihau achosion o ofn troseddau, a chynyddu sicrwydd.

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae Diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae gan ein holl wasanaethau cydgyfrifoldeb i ddiogelu pobl ddiamddiffyn, waeth beth yw eu swydd. Mae hyn yn cynnwys dilyn gweithdrefnau diogelu wrth recriwtio a hyfforddi staff, ond hefyd trwy eu harsylwadau a'r cysylltiad sydd ganddynt â phobl yn eu gwaith bob dydd, ac adrodd unrhyw beth sydd yn achosi pryder.

Mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a budd-ddeiliaid eraill er mwyn helpu i fynd i'r afael ac atal trosedd ac anhrefn, er enghraifft drwy wiriadau gwerthu dan oed a gwiriadau cydymffurfio â gwerthiant drwy ddirprwy, trwyddedu alcohol, darparu teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus a helpu i blismona economi hwyr y nos. Maent hefyd yn gorfodi lechyd a Diogelwch mewn nifer o weithleoedd ac yn helpu i sicrhau diogelwch a safon y gadwyn fwyd er mwyn lleihau risg i iechyd pobl ac anifeiliaid, maent yn ymgymryd â gorfodi trosedd ar stepen y drws, darparu parthau rheoli galw diwahoddiad, gwaith diogelu gyda phreswylwyr sy'n cael eu targedu a sgamiau, trwyddedu casgliadau elusen o ddrws i ddrws, cynnal gwiriadau diogelwch ar nwyddau traul gan gynnwys teganau a nwyddau trydanol, gweithgareddau trwyddedu eraill – er enghraifft tacsis a cherbydau hurio preifat, gamblo, alcohol, adloniant, tatŵio, tyllu'r croen a thriniaethau cosmetig.

Sut gallwch chi gymryd rhan:

Gallwch chi gymryd rhan yn eich cymuned. Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o helpu eich cymuned leol ac i gwrdd â phobl leol. I gael rhagor o wybodaeth am wirfoddoli, cysylltwch â www.cvsc.org.uk neu ffoniwch 01492 534091.

Mae cymunedau yn chwarae rôl allweddol wrth edrych allan am bobl ddiamddiffyn. Os ydych chi'n gweld rhywbeth sy'n eich pryderu, neu os ydych chi'n poeni am rywun yn eich cymuned, co**fi**wch ddweud.
Os ydych chi'n gwybod am blentyn neu oedolyn sydd mewn perygl o gam-drin neu yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r cyngor neu'r heddlu. Os yw'r person mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar unwaith ar 999. Os nad ydyw mewn perygl dybryd, ffoniwch Gofal Cymdeithasol cyn gynted â phosibl i rannu eich pryderon.
Gofal Cymdeithasol Conwy: 0300 456 1111
Tu allan i oriau arferol: 01492 515777

Mae seibrdroseddu yn faes sydd yn tyfu'n gynyddol. Meddyliwch am ddiogelwch y rhyngrwyd - gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yma www.north-wales.police.uk/cyber-crime

I gael rhagor o wybodaeth ar ddiogelwch y ffordd ar eich cyfer chi a'ch teulu, cliciwch yma
http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Road-Safety/Road-Safety.aspx

I gael hyfforddiant Bikeability, cysylltwch â'r Adain Diogelwch Ffyrdd diogelwch.ffyrdd@conwy.gov.uk.

Cyfrannu at Nodau Lles:



3) Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy, priodol, o safon dda sy'n gwella safon eu bywydau.

Rydym eisiau i'n preswylwyr fyw mewn llety sy'n cefnogi eu iechyd a lles cadarnhaol.

Y Dyfodol: drwy ganolbwyntio ar ymagwedd strategol, rydym yn gobeithio cael y gymysgedd gywir o lety yn yr ardaloedd iawn er mwyn i bobl allu byw mewn cymunedau maent yn falch o'u galw'n gartref.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		ADNODDAU	5 Dull o Weithio
A3.1	Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da sy'n diwallu angen a nodwyd ac sy'n cynorthwyo i liniaru effaith diwygiadau cyfundrefn les Llywodraeth y DU. (Er enghraifft, gall pobl yng Nghonwy ddewis cael mynediad i dai â chymorth priodol beth bynnag fo lefel eu hangen, gallu neu oedran.)	Amser staff Grant Tai Cymdeithasol Grant Refeniw Tai Cymdeithasol Cynllun Troi Tai'n Gartrefi Cyllid Cymdeithas Dai a Chyngor Datblygwyr preifat Dyraniadau Tai CDLl Tir CBSC	Tymor hir Atal Cydweithio Cyfranogiad
A3.2	Gweithio gyda'n partneriaid i gryfhau ein gwasanaethau atal digartrefedd ymhellach.	Amser staff Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Cyllideb Gwasanaethau Tai	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A3.3	Cynyddu'r cyflenwad o dai priodol ar y farchnad agored sy'n diwallu'r angen a nodwyd.	Amser staff Datblygwyr preifat Troi Tai'n Gartrefi Dyraniadau Tai CDLl Tir CBSC	Tymor hir Atal Cydweithio Cyfranogiad
A3.4	Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cyflenwad ac ansawdd llety priodol yn y sector gofal annibynnol (e.e. cartrefi preswyl a gofal nyrsio).	Amser staff Cydweithio â'r sector preifat Tir CBSC Safle a ddyrannwyd ar gyfer CDLl	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin 2016/17	Targed	Meincnod	Amlder
M3.1 a	Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ôl maint a daliadaeth Cymdeithasol (gan gynnwys tai â chymorth ar gyfer pobl ddiamddiffyn Canolradd (perchnogaeth cartref/ rhent cost isel)	Cyfanswmo 81 73 cym 8 canol	Cyfanswmo 202 101 cym 101 canol	Cymru gyfan	Blynyddol
M3.1b	Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a arferai fod yn gartrefi gwag	9	8	Nac oes	Blynyddol
M3.1.c	Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel % o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn	32.6%	30%	Cymru gyfan	Blynyddol
M3.1d	Cyfanswm yr unedau newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn (tai marchnad agored a thai fforddiadwy)	233	618	Cymru gyfan	Blynyddol
M3.2	% yr achosion lle cafodd digartrefedd ei atal (fel y diffiniwyd gan Adran 66 Deddf Tai (Cymru) 2014)	58%	65%	Cymru gyfan	Blynyddol
M3.2a	Nifer yr ymgeiswyr am dai cymdeithasol ar y gofrestr tai cyffredin	900	Dim targed	Nac oes	Blynyddol
M3.3	Nifer y cartrefi marchnad agored newydd yn ôl maint 1 neu 2 ystafell wely 3 ystafell wely 4+ ystafell wely		 30% 35% 35%	Cymru gyfan	Blynyddol
M3.4a	Nifer y gwlâu sector gofal annibynnol (e.e. cartrefi gofal a phreswyl) yn y sir	1254	1300	Nac oes	Blynyddol
M3.4b	% y cynnydd yn nifer y gwlâu cartrefi sector gofal annibynnol (e.e. cartrefi gofal a phreswyl) yn y sir	Amh	3.7%	Nac oes	Bob 6 mis
M3.4c	Nifer y bobl sy'n byw yng nghynlluniau gofal ychwanegol presennol Conwy	195	200	Nac oes	Bob 6 mis
M3.4d	Nifer y bobl sydd ar restrau aros cynlluniau gofal ychwanegol presennol Conwy	97	80	Nac oes	Bob 6 mis
M3.4e	Nifer y gofalwyr maeth cyffredinol newydd a gymeradwywyd yng Nghonwy	5	5	Nac oes	Blynyddol
M3.4f	Nifer y gofalwyr maeth yn gysylltiedig â pherson newydd a gymeradwywyd yng Nghonwy	2	5	Nac oes	Blynyddol
M3.4g	Nifer y lleoliadau 'cynllun pan fydda i'n barod' (cymryd plant dros 18 oed)	3	5	Nac oes	Blynyddol
M3.4h	Nifer y rhai dros 18 sy'n cael mynediad i gynlluniau tai â chymorth e.e. Kickstart	83	90	Nac oes	Bob 6 mis

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Strategaeth Tai Lleol Conwy
- Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)
- Cynlluniau Lleoedd
- Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar Gyfer Tai Conwy

- Cynllun Gweithredu Diwygio
- Strategaeth Gomisiynu

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae adran yr Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau yn cefnogi'r canlyniad hwn drwy eu cyfrifoldebau ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd, amddiffyn yr arfordir a gwaith ymwybyddiaeth o lifogydd.
Mae Gofal Cymdeithasol yn cefnogi pobl i gael mynediad at gynlluniau byw â chymorth, gofal cartref, ac yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai i reoli'r gwaith o addasu tai ar gyfer pobl sydd ag anableddau.
Mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn cefnogi'r canlyniad hwn trwy weithio gyda phartneriaid i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac yn sicrhau bod ceisiadau ar gyfer datblygiadau preswyl yn darparu ystod gytbwys o fathau o dai er mwyn adlewyrchu anghenion yr ardal a darparu lefel briodol o dai fforddiadwy.
Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gwella safonau tai yn y sector rhentu preifat drwy addysg, cyngor, trwyddedu, gorfodi cadarn ac adnewyddu yn y sector preifat sy'n anelu at wella cyflwr ffisegol ac effeithlonrwydd ynni eiddo yn y sector preifat.
Mae Refeniw a Budd-daliadau yn darparu cyngor a chefnogaeth i'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth ariannol i helpu gyda chostau tai.
Mae'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol yn sicrhau bod digon o dir yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiad tai a bod tai yn cael eu cefnogi gan y seilwaith a chludiant cyhoeddus cywir.
Mae TGCh yn gweithio gyda chymunedau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynyddu mynediad at fand eang a Wi-Fi cymunedol.
Mae ein gwasanaethau 'cefn swyddfa' yn cefnogi datblygu tai drwy gontractau a chaffael, cymorth cyfreithiol, Adnoddau Dynol.

Sut gallwch chi gymryd rhan:

Er mwyn datblygu llety priodol, rhaid adeiladu mewn cymunedau. Mae angen trafod gyda chymunedau lleol ynghylch sut a lle y bydd hyn yn digwydd. Gall ddod â llawer o fanteision i gymuned a galluogi cymunedau i wella eu cyfleusterau lleol – felly, cymerwch ran i ddatblygu eich cynllun lle/ardal lleol.
Os oes gennych chi syniadau neu eisiau cymryd rhan, cofrestrwch ac ychwanegwch eich syniadau i Sgwrs y Sir www.conwy.gov.uk/sgwrsysir

- Dysgwch fwy am y cynllun cymorth i brynu yng Nghymru - os ydych chi'n cael trafferth prynu cartref yng Nghymru, efallai y gallwch gael cymorth ariannol drwy amrywiaeth o fentrau perchnogaeth cartref - http://www.grwpcynefin.org/cy/chwilio-am-gartref/affordable-homes/
- Os oes angen cyngor a chymorth arnoch ynglŷn â'ch dewisiadau tai neu eich bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref – ffoniwch Datrysiadau Tai Conwy ar 0300 124 0050.
- Mae Llinell Gymorth Dyledion Tai Cymru yn cynnig cymorth am ddim i berchnogion tai a phobl mewn eiddo rhent sy'n ei chael hi'n anodd talu eu morgais neu daliadau rhent - ffoniwch 0800 107 1340 neu ewch i www.stepchange.org/Debt-advice-in-Wales i gael cyngor.

Cyfrannu at Nodau Lles:



4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol.

Byddwn yn canolbwyntio ar gamau i hyrwyddo dewisiadau a ffyrdd iach o fyw ac yn ei dro, yn lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn cryfhau gwaith partneriaeth rhwng y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu mynediad syml a di-dor i iechyd a gofal cymdeithasol pan fyddwch eu hangen.

Y Dyfodol: drwy fynd i'r afael â ffordd o fyw ac ymddygiadau sydd yn afiach, rydym wedi gwrthdroi'r duedd o ordewdra a phroblemau iechyd cysylltiedig ac mae pobl yn fwy iach ac yn byw'n hirach.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		ADNODDAU	5 Dull o Weithio
A4.1	Datblygu modelau newydd i hybu iechyd a lles fel bod pobl o bob oed yn llai dibynnol ar iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn yn gwneud hyn trwy weithio ar y cyd ac edrych ar dueddiadau yn y dyfodol.	Amser staff a grantiau allanol	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A 4.2	Byddwn yn canolbwyntio ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac yn rhoi cefnogaeth i rieni drwy ddulliau aml-asiantaeth.	Amser staff a grantiau	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A 4.3	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod dinasyddion Conwy yn cael mynediad gwell at gefnogaeth iechyd meddwl.	Amser staff	Tymor hir Atal Cydweithio Cyfranogiad
A 4.4	Byddwn yn datblygu prosiectau i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.	Amser staff a chyllid mewnol, grantiau	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A4.5	Byddwn yn gweithio i gyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol er mwyn cefnogi lles staff.	Amser staff ac adnoddau sydd eisoes yn bodoli	Tymor hir Atal Cyfranogiad

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin 2016/17	Targed	Meincnod	Amlder
M4.1 a	% yr oedolion sydd wedi cwblhau cyfnod o alluogi ac sydd â phecyn gofal llai a bod hwn yn dal mewn grym 6 mis yn ddiweddarach	8.23%	8%	Nac oes	Bob 6 mis
M4.1b	% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth a bod hwn yn dal mewn grym 6 mis yn ddiweddarach.	89.4%.	90%	Nac oes	Bob 6 mis
M4.1 c	% o bobl sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt	51%	60%	Cymru gyfan	Blynyddol
M4.2	% o bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (Arolwg Cenedlaethol Cymru)	Newydd	Dim targed	Cymru gyfan	Blynyddol
M4.3	Nifer y rhaglenni lles a hyrwyddir wedi'u darparu trwy Ganolfannau Lles a lleoliadau cymunedol lleol	240	250	Nac oes	Bob 6 mis

Ym mha faes y mae gwaith mwy manwl yn digwydd:

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Partneriaeth Pobl Conwy
- Cynllun Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol, Cynllun Gwasanaeth Datblygu Cymunedol, Cynllun Gwasanaeth Theatrau a Chanolfan Gynadledda
- Strategaeth Tai Lleol
- Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Conwy
- Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)
- Asesiad Mannau Agored Conwy
- Cynllun Teithio Llesol

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo lles ac yn ceisio atal pobl rhag bod angen gofal. Maent yn darparu cymorth gofal cymdeithasol i alluogi pobl i fyw yn fwy annibynnol a chyn belled ag y bo modd, i barhau i wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae'r Gwasanaethau Addysg yn hyrwyddo ysgolion iach a chynllun Conwy Llesol i sicrhau bod plant yn llythrennog yn gorfforol. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys lles emosiynol a'r nod yw cefnogi pobl ifanc i fod yn emosiynol wydn. Mae Tîm Datblygu Chwarae CVSC yn cyfrannu at y canlyniad hwn drwy'r asesiad digonolrwydd chwarae

Mae'r Gwasanaethau Datblygu Cymunedol yn cefnogi lles drwy weithgareddau lles amrywiol sy'n cael eu cynnig drwy wasanaethau llyfrgell. Mae'r canolfannau hamdden yn hyrwyddo mynediad i ymarfer corff ac mae canolfan iechyd Eirias yn gweithio mewn Partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu cefnogaeth adsefydlu, atal salwch a chefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig.

Mae Theatrau a Chynadleddau yn cefnogi lles drwy'r cyfleoedd therapiwtig gall y celfyddydau gyfrannu tuag at les. Mae yna nifer o sesiynau sy'n ymroddedig i gefnogi a gwella iechyd meddwl pobl.

Mae'r Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau wedi datblygu llwybrau teithio llesol i annog mwy o deithiau egnïol i wella iechyd o ddydd i ddydd. Maent yn darparu cyfleoedd drwy ddefnyddio'r parciau, traethau a mannau chwarae i helpu gyda lles.

Mae Gwasanaethau Rheoleiddio yn cefnogi lles drwy arolygu safleoedd bwyd a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth, rheoleiddio datblygiadau adeiladu, gwella safonau tai, diwallu anghenion tai a chymorth cysylltiedig â thai ac atal digartrefedd, cyflwyno rhaglenni arolygu ar sail risg i nodi a mynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth, rheoli tybaco (e.e. canfod rhai ffug, hysbysebu ac arddangos anghyfreithlon), lleihau achosion o werthu alcohol, tybaco a thoddyddion dan oed ac ati, rheoli ac atal clefydau trosglwyddadwy. Mae darpariaeth mannau agored yn ystyriaeth pan fydd ceisiadau ar gyfer cynlluniau tai newydd yn cael eu hasesu, a lle bo modd, mae darpariaeth mannau agored presennol hefyd yn cael eu diogelu.

Mae Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau yn darparu cymorth i bobl gael mynediad at fudd-daliadau sydd ar gael iddynt. Mae yna glinigau cymorth arbenigol mewn partneriaeth gyda Macmillan i gefnogi pobl â chancr.

Mae ein gwasanaethau 'cefn swyddfa' yn cefnogi pob agwedd ar ddarpariaeth lles drwy gontractau a chaffael, cymorth cyfreithiol, a chefnogaeth TGCh. Mae Adnoddau Dynol yn rhoi cymorth i sicrhau bod lles ein staff yn cael ei gynnal drwy amrywiaeth o gynlluniau iechyd corfforaethol.

Sut gallwch chi gymryd rhan:

Yn ogystal â bwyta'n iach, mae'r 5 dull canlynol at les yn gallu helpu – ewch i www.mind.org.uk/5-dull-canlynol-at-lles i ddysgu mwy.

Mae Dewis Cymru yn wefan gynhwysfawr y gallwch ei defnyddio os ydych eisiau gwybodaeth neu gyngor am eich lles - neu os hoffech chi wybod sut y gallwch helpu rhywun arall. Ewch i www.dewis.cymru neu fel arall ewch i'n cyfeiriadur gwybodaeth www.conwyfamilyinformation.co.uk i gael rhagor o wybodaeth.
Mae hylendid dannedd yn bwysig i'n lles – ewch i www.designedtosmile.co.uk am y cyngor gorau.
Mae yna lawer yn digwydd yn eich llyfrgell – beth am ymuno â grŵp darllen?
Mae ein llyfrgelloedd yn cefnogi Presgripsiwn Llyfrau Cymru. I gael gwybod mwy ewch i www.nhsdirect.wales.nhs.uk/presgripsiwnllyfraucymru.
Mae ein llyfrgelloedd yn cynnal nifer o wasanaethau allgymorth megis Sesiynau Cymorth Canser Macmillan a Refeniw a chlinigau cyngor Budd-daliadau – ewch i www.conwy.gov.uk/llyfrgell i gael gwybod mwy.

Mae Sir Conwy yn sir hardd gyda llawer o weithgareddau awyr agored - beth am roi cynnig arni?

- Antur awyr agored www.nwoes.co.uk
- Teithiau Cerdded www.cerddedconwywalks.org neu www.cyfoethnaturiol.cymru/cerdded
- Geoguddio www.geocachingwales.com
- Beicio Mynydd www.bikingconwy.ws
- Bywyd gwyllt www.conwy.gov.uk/bywydgwyllt
- Chwaraeon anabledd http://www.chwaraeonanableddcymru.com/conwy/
- Rhedeg www.parkrun.org.uk/conwy neu www.walkjogrun.net/conwy-running-routes www.nhs.uk/LiveWell/couch to 5k
- Chwarae www.chwaraecymru.org.uk cvsc.org.uk/cy/cvscplaydevelopment/
- Nofio www.conwy.gov.uk/nofio

Cyfrannu at Nodau Lles:



5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus

Rydym am i'n heconomi fod yn hyderus, gwydn a chynaliadwy. Byddwn yn annog syniadau newydd a byddwn yn gweithio'n rhagweithiol gyda busnesau i hyrwyddo amodau lle gallant dyfu.

Y Dyfodol: trwy gydweithio, byddwn yn datblygu mentrau â llawer o effaith a fydd yn sbarduno cynnydd mewn cynhyrchiant, gwell cystadleurwydd ac yn creu cyflogaeth drwy'r flwyddyn mewn busnesau presennol sy'n ehangu a rhai newydd o fewn y sir. Fel hyn, byddwn yn cadw talent ac yn gosod Conwy yng nghanol Economi Gogledd Cymru.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		Adnoddau	5 Dull o Weithio
A5.1	Galluogi busnesau Conwy i elwa o'r datblygiadau economaidd mawr ar draws y rhanbarth.	Cyllid LIC Capasiti staff	Tymor hir Cydweithio Cyfranogiad
A5.2	Datblygu strwythurau a phartneriaethau i gyflawni dyheadau Strategaeth Twf Economaidd Conwy.	Adnoddau staff, partneriaeth gyhoeddus a phreifat a chyllid	Tymor hir Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A5.3	Datblygu a hyrwyddo eiddo busnes modern i ddenu mewnfuddsoddiad a chefnogi twf busnesau sydd eisoes yn bodoli.	Capasiti staff, o bosib tir CBSC a cheisiadau am gyllid allanol Cydweithio â'r sector preifat	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A5.4	Cefnogi datblygu sgiliau gan gynnwys prentisiaethau i baratoi pobl i fod yn barod am gyfleoedd gwaith yn y rhanbarth.	Capasiti staff a chyllideb refeniw. Cydweithio ar y cyd gyda'r sector AB	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A5.5	Datblygu twristiaeth y gaeaf, cryfhau'r sector gan ei wneud yn fwy cynaliadwy ar gyfer buddsoddi a chyflogi.	Capasiti staff a chydweithio gyda'r sector preifat.	Tymor hir Cydweithio Cyfranogiad
A5.6	Diogelu amddiffynfeydd arfordirol, isadeiledd yr A55 a phrif reilffordd i'r dwyrain o Fae Colwyn.	Gwneud cais am gyllid allanol LIC a chyllid budd-ddeiliaid gan gyrff cyhoeddus eraill	Tymor hir Atal Cydweithio

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin 2016/17	Targed	Meincnod	Amlder
M5.1	Cyfanswm arwynebedd llawr sydd wedi'i ddatblygu	2,250	4,725	Nac oes	Blynyddol
M5.2a	Busnesau sydd wedi'u cymhwyso drwy gynlluniau	4	4	Nac oes	Blynyddol
M5.2b	Denu buddsoddiad	1,000	1,000	Nac oes	Blynyddol
M5.3	Nifer y prentisiaethau a ddarparwyd / a hwyluswyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	71	60	O bosibl Gogledd Cymru	Blynyddol
M5.4	Nifer yr ymwelwyr dros fisoedd y gaeaf	2,199,840	Dim	Nac oes	Blynyddol

			targed		
M5.5a	Canran y plant sy'n byw mewn tlodi (Data'r HMRC)	20.7%	Dim targed	Cymru gyfan	Blynyddol
M5.5b	% o'r swyddi sy'n rhai llawn amser yn y sir	53.5%	Dim targed	Cymru gyfan	Blynyddol

Ym mha faes y mae gwaith mwy manwl yn digwydd:

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Lleoliad Perffaith ar gyfer Busnes a Thwf - Strategaeth Twf Economaidd Conwy Twf 2017- 2027.
- Strategaeth Digwyddiadau
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy 2015 – 2018 - www.conwy.gov.uk/cyrchfanconwy
- Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy
- Strategaeth Datblygu Gwledig Conwy
- Gweledigaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i strategaethau ategol:
  - Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
  - Cynllun Cysylltedd ac Isadeiledd Gogledd Cymru
  - Cadwyni cyflenwi
- Trac Twf 360
- Cydgynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae partneriaeth gref rhwng y Cyngor a'r sector preifat yn hanfodol i gael llwyddiant wrth wireddu'r canlyniad hwn. Mae hyn yn cael ei arwain / gefnogi gan Fwrdd Twf Economaidd Conwy, gan adlewyrchu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae pwyslais clir ar i fusnesau ddatblygu marchnadoedd y tu hwnt i ffiniau Conwy, ond mae cryfhau'r broses o brynu yn lleol yn bwysig hefyd. Mae pob maes Gwasanaeth yn cyfrannu at yr economi leol, yn enwedig y rheini sy'n caffael nwyddau neu wasanaethau, neu sy'n rheoli prosiectau buddsoddiad cyfalaf. Lle bo'n bosibl, mae Rheolau Sefydlog Contractau'r Cyngor, yn annog y dylid defnyddio busnesau lleol. Trwy fuddsoddiadau mawr, fel ysgolion newydd a'r adeilad swyddfeydd newydd, rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn cyflawni buddion cymunedol, gan gynnwys cyfleoedd recriwtio a hyfforddi, yn ogystal â datblygu'r cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi leol.

Mae gan y Cyngor feysydd gwariant lleol sylweddol, megis drwy'r strategaeth comisiynu Gofal Cymdeithasol, a nifer o brosiectau buddsoddiad cyfalaf, a reolir yn bennaf drwy Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Gwasanaethau Addysg a'r Tîm Rheoli Asedau. Trwy brosiectau buddsoddiad mawr, fel ysgolion newydd a'r adeilad swyddfeydd newydd, rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn cyflawni buddion cymunedol, gan gynnwys cyfleoedd recriwtio a hyfforddi, yn ogystal â datblygu'r cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi lleol. Lle y bo'n bosibl, mae pob gwasanaeth yn cynnig prentisiaethau hefyd.

Mae'r Gwasanaethau Addysg yn gweithio gydag ysgolion a Gyrfa Cymru i sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n ddysgwyr yn gwneud y mwyaf o'u potensial i fod yn fedrus ac yn barod ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth lleol. Mae'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol ar flaen y gad wrth ymgysylltu â busnesau gan gynnig cynnig cymorth busnes i fusnesau presennol a darpar fusnesau, annog busnesau newydd i fuddsoddi yn y sir, a rhedeg calendr o ddigwyddiadau busnes / gweithdai a seminarau o Ganolfan Fusnes Conwy. Ynghyd â Rheoli Ystadau, mae Gwasanaeth Datblygu Cymunedol hefyd yn rheoli ystâd o adeiladau busnes ac unedau masnachol sy'n cael eu gosod i fusnesau. Mae Tîm Ewropeaidd y Gwasanaeth yn helpu i ddenu cyllid er mwyn galluogi buddsoddiadau busnes ac isadeiledd. Mae Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau, Theatrau a Chynadleddau, a Gwasanaethau Datblygu Cymunedol yn rheoli ystod o asedau sydd yn allweddol bwysig i fusnesau a thwristiaid. Mae'r rhain

yn amrywio o ffyrdd a meysydd parcio i bromenadau, traethau, parciau, tram y Gogarth, canolfannau hamdden, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a theatrau. Mae'r Tîm Marchnata a Chyfathrebu yn cefnogi nifer o ddigwyddiadau cymunedol ac yn trefnu digwyddiadau rhanbarthol mawr megis Access All Eirias, neu gynnal cymalau o Rali GB. Mae'r digwyddiadau hyn nid yn unig yn denu ymwelwyr i'r ardal, ond maent yn gwella proffil a hyder y Sir.

Mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn cefnogi busnesau sydd ag enw da tra'n cymryd camau cadarn priodol yn erbyn masnachwyr twyllodrus; darparu addysg, cyngor a hyfforddiant ar gyfer busnesau (e.e. diogelwch bwyd); helpu i blismona economi hwyr y nos; rhoi cyngor ac addysg i ddefnyddwyr busnes; trwyddedu tacsis, masnachu ar y stryd, sefydliadau gamblo ac ati; cefnogi twristiaeth yng nghyswllt trwyddedu digwyddiadau diwylliannol sydd â phroffil uchel.

Lle bo'n bosibl, caiff tir cyflogaeth posib ei ddiogelu ac fe anogir cynhyrchu cyflogaeth newydd drwy'r broses gynllunio. Caiff cyfleoedd hyfforddiant, addysg a gwaith eu galluogi trwy gynlluniau datblygu tai ac adfywio newydd.

Sut gallwch chi gymryd rhan:

Cefnogi busnesau lleol drwy siopa'n lleol, prynu cynnyrch lleol a mynychu digwyddiadau lleol. Drwy wneud hyn byddwch yn helpu eich economi leol ac yn hyrwyddo cyflogaeth leol.

Rydym yn byw mewn ardal brydferth gydag amrywiaeth eang o atyniadau a diwylliant a threftadaeth ddiddorol – ewch ati i grwydro eich hun ac anogwch bobl eraill i ymweld i weld drostynt eu hunain. Ewch i www.visitwales.com/explore-north-wales

Ydych chi'n ystyried sefydlu eich busnes eich hun, neu ehangu eich busnes presennol? Cysylltwch â Gwasanaethau Cefnogi Busnes i gael cyngor www.conwybusinesscentre.com/cefnogaeth-busnes

Dysgwch fwy am brentisiaethau www.careerswales.com/prentisiaeth

Cyfrannu at Nodau Lles:



6) Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd

Rydym eisiau cymunedau i fod yn gryf ac yn barod i addasu i'r heriau amgylcheddol y mae'r byd yn eu hwynebu. Byddwn yn canolbwyntio ar wella amddiffynfeydd rhag llifogydd, cynyddu ailgylchu ac yn buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Y dyfodol - bydd y camau a gymerwn yn awr drwy fynd i'r afael ag ailgylchu ac ynni adnewyddadwy yn ein helpu i fynd i'r afael â'r duedd hir dymor o newid yn yr hinsawdd.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		Adnoddau	5 Dull o Weithio
A6.1	Cefnogi ac addysgu cymunedau i atal / paratoi ar gyfer llifogydd.	Capasiti staff a chydweithio gyda CNC a Dŵr Cymru Defnyddio wardeiniaid llifogydd gwirfoddol Cynghorau Tref a Chymuned	Tymor hir Atal Cydweithio Cyfranogiad
A6.2	Gweithredu cynlluniau cynaliadwy amddiffyn yr arfordir rhag llifogydd sy'n addas at y diben.	Capasiti staff a cheisiadau grant allanol	Tymor hir Atal Cydweithio
A6.3	Cefnogi trigolion a busnesau i ailgylchu mwy a gwastraffu llai.	Capasiti staff	Tymor hir Atal Cydweithio Cyfranogiad
A6.4	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar y diwydiant ailgylchu cynaliadwy e.e. cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Byddwn yn caffael gan ddarparwyr amgylcheddol cyfrifol.	Capasiti staff Gweithio gyda fforymau busnes lleol a chymunedau lleol.	Tymor hir Atal Cydweithio Cyfranogiad
A6.5	Lleihau ôl troed carbon y Cyngor ac allyriadau carbon drwy fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.	Rhaglen gyfalaf ar gyfer datblygiadau newydd Ysgolion yr 21ain Ganrif Cynlluniau buddsoddi i arbed	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A6.5a	Annog cymunedau i ddatblygu eu prosiectau ynni adnewyddadwy eu hunain.	Gweithio gyda fforymau busnes lleol a chymunedau lleol. Ceisiadau am Grantiau	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A6.6	Hyrwyddo datblygiad morlyn llanw ym Mae Colwyn.	Capasiti staff	Tymor hir Atal

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin 2016/17	Targed	Meincnod	Amlder
M6.1a	Nifer y digwyddiadau ymwybyddiaeth llifogydd a gynhaliwyd	13	10	Nac oes	Blynyddol
M6.1b	Nifer yr eiddo lle mae'r perygl o lifogydd wedi lleihau	Newydd	94	Nac oes	Blynyddol
M6.2	Nifer y traethau sydd â chynllun rheoli traethau	1	2	Nac oes	Blynyddol
M6.3a	Canran y gwastraff trefol a ailgylchwyd, a ailddefnyddiwyd neu a gompostiwyd	62.63%	65%	Cymru gyfan	Blynyddol
M6.3b	Swm cyfartalog o wastraff cartrefi gweddilliol a gesglir i'w waredu fesul cartref (kg)	292	265	Cymru gyfan	Blynyddol
M6.4	Canran y gostyngiad yn allyriadau carbon deuocsid (CO2) o weithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	8.8%	-3%	Nac oes	Blynyddol
M6.5	Capasiti Arolwg Cenedlaethol Cymru (mewn MW) o offer ynni adnewyddadwy a osodwyd.	Newydd	Dim targed	Cymru gyfan	Blynyddol

Ym mha faes y mae gwaith mwy manwl yn digwydd:

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Tuag at Ddim Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru
- Strategaeth Rheoli Carbon CBSC
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd
- Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2
- Cynllun Rheoli Traethlin Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr Cymru 2
- Cynllun Gwella Bioamrywiaeth
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy Conwy

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae'r Adran Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau yn helpu pobl i wireddu potensial ein parciau, mannau gwyrdd, rhandiroedd, mannau chwarae, traethau a pharciau gwledig i annog ffyrdd o fyw egnïol ac iach. Mae'r Tîm Addysg Ailgylchu yn cyflwyno negeseuon pwysig am leihau gwastraff ac ailgylchu i ysgolion yng Nghonwy. Mae Gwasanaethau Addysg yn cefnogi cynlluniau ysgolion Eco, ac mae pob ysgol newydd yn cydymffurfio â rhagoriaeth Bream. Gyda'u gilydd, mae pob gwasanaeth yn datblygu'r ymrwymiad i leihau carbon yn ein hadeiladu ac yn ymrwymo i fentrau megis goleuadau LED, ailgylchu a lleihau papur mewn swyddfeydd. Bydd y swyddfeydd newydd hefyd yn cydymffurfio â rhagoriaeth BREAM ac yn defnyddio datrysiadau ecolegol lle bo'n bosibl.

Mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn helpu i warchod yr amgylchedd drwy fynd i'r afael â llygredd sŵn gwrthgymdeithasol; perygl o lifogydd, gweithio ar safleoedd hyll ac eiddo sydd wedi'u hesgeuluso; lleihau nifer yr achosion o anifeiliaid yn crwydro trwy sicrhau iechyd a lles anifeiliaid fferm ac annog perchenogaeth ar anifeiliaid anwes; sbwriel, baw cŵn a gorfodi gorchymyn rheoli cŵn trwy ddefnyddio Rhybuddion Cosb Benodedig ac addysg, monitro sŵn, awdurdodiadau Trwyddedu Amgylcheddol, monitro amgylcheddol, tipio anghyfreithlon ac ymchwiliadau i gwynion niwsans.

Mae'r adran Tai yn asesu i ba raddau y mae teuluoedd yn byw mewn tlodi tanwydd / tlodi tanwydd difrifol ac yn edrych am gyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni anheddau preswyl i leihau tlodi tanwydd.

Sut gallwch chi gymryd rhan:

I gael cyngor llifogydd ar gadw eich dyfrffyrdd yn glir, paratoi a diogelu eich eiddo - ewch i www.conwy.gov.uk/llifogydd

Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu

Ailddefnyddio -

- Ceisiwch ailddefnyddio eitemau er enghraifft, mae clytiau yn anodd iawn i'w hailgylchu ac maent yn gyfraniad mawr i safleoedd tirlenwi. Ydych chi erioed wedi ystyried defnyddio clytiau y gellir eu hailddefnyddio? Defnyddiwch fagiau siopa nid bagiau plastig, cariwch botel neu gwpan ddŵr y gellir ei ailddefnyddio. Gall y newidiadau hyn wneud gwahaniaeth mawr.

Lleihau

- Meddyliwch am eich deunydd pacio – oes yna ffordd y gallwch atal gwastraff? E.e. peidiwch â defnyddio gwellt a chyllyll a ffyrc tafladwy, dewiswch opsiynau yn yr archfarchnad sydd â llai o ddeunydd pacio, a pheidiwch â defnyddio'r bagiau cynnyrch plastig.
- Gwnewch yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed - gyda'n gilydd gallwn ddefnyddio pŵer y defnyddiwr i lobïo am newidiadau mewn pecynnu i atal gwastraff.
- Tyfwch eich llysiau eich hun. I gael gwybodaeth am randiroedd ewch i www.conwy.gov.uk/lotments
- Ewch i www.tyfurdyfodol.co.uk/argymhellion i gael argymhellion a chyngor am dyfu eich bwyd eich hun.
- Prynwch gynnyrch sy'n cael ei dyfu'n lleol. Ymunwch â'ch cydweithfa bwyd lleol i gael ffrwythau a llysiau rhad sydd wedi'u tyfu'n lleol - ewch i www.foodcoopswales.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.
- Meddyliwch am eich ynni – allech chi wneud newidiadau sy'n eich helpu i wneud arbedion a chefnogi'r amgylchedd? E.e. inswleiddio eich cartref neu newid eich bylbiau golau i rai LED. Ewch i dudalennau www.conwy.gov.uk/EffeithlonrwyddYnni i ddarganfod awgrymiadau a ffyrdd y gallwch helpu i leihau gwastraffu ynni yn eich cartref ac arbed arian ar eich biliau ynni. / Ymchwiliwch beth yw'r opsiynau gwyrdd ar gyfer eich cartref, e.e. bylbiau golau, casgenni dŵr, paneli solar, insiwleiddio. Mae llawer o awgrymiadau ar arbed ynni yn eich cartref i'w gweld yn www.energysavingtrust.org.uk.

Ailgylchu

- Ailgylchwch cymaint ag y gallwch chi – i gael mwy o wybodaeth ewch i www.conwy.gov.uk/ailgylchu
- Ewch allan i fwynhau'r amgylchedd – ewch am dro ar y traeth, ewch i grwydro ar hyd llwybr beics neu gerdded yn y mynyddoedd - mwynhewch yr ardal a chadw'n heini. Ewch iwww.conwy.gov.uk/cefngwlad i gael gwybodaeth am ble i fynd.

Cyfrannu at Nodau Lles:



7) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddathlu ein diwylliant ac yn defnyddio'r celfyddydau i wneud y mwyaf o les.

Y Dyfodol: Bydd ein treftadaeth gyfoethog wedi cael ei ddiogelu ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a bydd modd i bob rhan o gymdeithas gael mynediad i'r celfyddydau i wella eu lles. Bydd siarad Cymraeg yn rhan o fywyd bob dydd ym mhob cymuned.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		Adnoddau	5 Dull o Weithio
A7.1	Byddwn yn datblygu ein llyfrgelloedd yn ganolfannau cymunedol sy'n darparu ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau.	Capasiti staff	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A7.2	Byddwn yn datblygu Canolfan Ddiwylliant Conwy.	Cyllid allanol a derbyn cyfalaf a chyllid mewnol	Tymor hir Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A7.3	Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu'r Celfyddydau i ddal yr effaith gadarnhaol y gall y celfyddydau ei gael ar bob agwedd ar les.	Capasiti staff	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A7.4	Byddwn yn harneisio celfyddydau, diwylliant a'r diwydiannau creadigol i gefnogi'r gwaith o adfywio ein cymunedau.	Cyllid grant gan gynnwys CDG a'r cyngor celfyddydau Capasiti staff	Tymor hir Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A7.5	Drwy Strategaeth Iaith Gymraeg Conwy a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, byddwn yn annog dysgu a siarad Cymraeg fel rhan o fywyd bob dydd.	Capasiti staff	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin 2016/17	Targed	Meincnod	Amlder
M7.1a	Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o boblogaeth	4683	4775	Cymru gyfan	Blynyddol
M7.1b	Nifer o weithdai/digwyddiadau addysg sy'n gysylltiedig â threftadaeth gyda phobl ifanc a gefnogir gan y gwasanaeth mewn amgueddfeydd / lleoliadau eraill	Newydd	22	Nac oes	Blynyddol
M7.1c	Nifer y gwasanaethau a gweithgareddau a gynigir o adeiladau llyfrgelloedd?	Newydd	Gwaelodlin	Nac oes	Blynyddol
M7.1d	Arolwg Cenedlaethol Cymru - Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn. (Nid ar lefel sirol)	Newydd	Dim targed		Blynyddol
M7.2	Nifer y digwyddiadau celf a gynhaliwyd yn	54	60	Nac oes	Bob 6 mis

	benodol i gefnogi lles a ddarparwyd gan Wasanaeth Celfyddydau Conwy, Venue Cymru ac Ymddiriedolaeth Gelfyddydau Conwy				
M7.3	% y staff yng ngwasanaethau'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon ysgol a staff mewn ysgolion) - fesul adran gwasanaeth	31.5%	Dim targed i'w fonitro.	Cymru gyfan	Blynyddol
M7.4	% y disgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg	21.73%	22%	Cymru gyfan	Blynyddol
M7.5a	% o blant ysgolion cynradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg sy'n mynd i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg	90%	90%		Blynyddol
M7.5b	Nifer o ddigwyddiadau i hyrwyddo'r Gymraeg / codi ymwybyddiaeth a gynhelir mewn cydweithrediad â'n partneriaid	Dim data	Gwaelodlin	Nac oes	Blynyddol

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru - www.llyw.cymru/gweledigaeth-ar-gyfer-diwylliant-yng-nghymru
- Strategaeth Celfyddydau Conwy a Chynllun Gweithredu
- Strategaeth Digwyddiadau Conwy
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy 2015 - 2018
- Moderneiddio Venue Cymru - Gwneud y gorau o'n hasedau
- Safonau'r Gymraeg
- Strategaeth yr Iaith Gymraeg mewn Addysg
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy 2017 - 2020.
- Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd - Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward 2016 - 2026

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae ein holl wasanaethau yn cynnig gwasanaeth dwyieithog. Mae Gwasanaeth y Gyfraith a Llywodraethu yn rheoli'r gwasanaeth cyfieithu sydd bellach yn rhoi cymorth i nifer o Awdurdodau Lleol ar draws y rhanbarth.
Mae adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn rhedeg Tramffordd y Gogarth, sydd wedi bod yn cludo ymwelwyr ers 1902, a dyma'r unig dramffordd ym Mhrydain sy'n cael ei dynnu gan geblau. Maent yn cyflwyno prosiectau cyfalaf sy'n cyfrannu at warchod, gwella a chynnal asedau treftadaeth a diwylliannol.
Mae'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol yn rheoli amgueddfeydd ac archifau ac mae wedi datblygu nifer o atyniadau diwylliannol a threftadaeth i dwristiaid megis prosiect Treftadaeth Tywysogion Gwynedd.
Mae'r Gwasanaeth Theatrau a Chanolfan Gynadledda yn rhedeg rhaglen o gelfyddydau a diwylliant gydol y flwyddyn, gan gynnwys cynlluniau am ddim megis pobl ifanc creadigol er mwyn ennyn diddordeb yn y celfyddydau.
Mae'r Gwasanaeth Celfyddydau Mynegiannol a Cherddoriaeth wedi ymrwymo i gefnogi pob disgybl i ffynnu a chyflawni yn y celfyddydau a thrwy'r celfyddydau, gan gyfrannu at wella ysgolion a chyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae rhaglen gyfan o weithgareddau drwy'r flwyddyn yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn profiadau dan areiniad artist. Mae'r Gwasanaeth Cerdd yn cynnig gwersi offerynnol / lleisiol ar gyfer y disgyblion ac yn rheoli cerddorfeydd sirol, ensembles a bandiau. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i feithrin artistiaid a cherddorion ifanc mwy galluog a thalentog.
Mae'r Gwasanaeth Addysg yn cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru i gynyddu niferoedd a chanrannau o'r boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yn barhaus. Mae Gwasanaethau Addysg y Sir wedi gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn caffael sgiliau ieithyddol rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg i'w galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Rydym yn annog balchder yn yr iaith, treftadaeth a diwylliant Sir Conwy a Chymru.

Sut gallwch chi gymryd rhan:

Mae gennym dreftadaeth gyfoethog wych yma ar ein stepen drws. I gael gwybod mwy am lefydd i ymweld â nhw, ewch i www.visitwales.com/explore-north-wales neu www.snowdoniaheritage.info
Dewch o hyd i ddosbarthiadau Cymraeg lleol neu grŵp trafod - gallwch ddarganfod mwy yma www.conwy.gov.uk/dysguoedolion
Mynychwch ddigwyddiadau lleol, ewch i www.conwy.gov.uk/digwyddiadau i gael gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yng Nghonwy.
Ymwelwch ag amgueddfa www.conwy.gov.uk/amgueddfeydd
Ymwelwch â llyfrgell www.conwy.gov.uk/llyfrgell
Ymchwiliwch i hanes eich teulu – mae ein Llyfrgellwyr yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth hanes teulu ar-lein.
Ewch i www.venuecymru.co.uk a www.theatrcolwyn.co.uk i gael gwybod pa sioeau fydd yn cael eu dangos neu ffoniwch 01492 872000.
Darganfyddwch pa weithgareddau sydd ar gael yn eich canolfan gymunedol leol - ffoniwch (01492) 574000 neu ewch i www.conwy.gov.uk/cyfleusteraucymunedol i gael gwybod mwy.
Ymunwch â Phobl Ifanc Creadigol - mae o am ddim! www.venuecymru.co.uk/cylchstori neu poblifancgreadigol@venuecymru.co.uk
Dywedwch eich stori: Os oes gennych chi atgofion, lluniau neu ffilm o ddigwyddiadau, arferion neu ffyrdd o fyw yn y gorffennol, yna rhannwch nhw er mwyn dathlu treftadaeth yn eich ardal chi.

Cyfrannu ar Nodau Lles:



8) Mae pobl yng Nghonwy yn cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Byddwn yn canolbwyntio ar adolygu'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu, cyfathrebu ac yn gweithio gyda'n cymunedau. Byddwn yn newid y ffordd rydym yn gweithio i fod yn fwy blaengar, modern ac effeithlon.

Y dyfodol - trwy wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda chymunedau, byddwn yn galluogi pobl i chwarae rhan weithredol yn yr hyn sy'n digwydd ynddynt.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		Adnoddau	5 Dull o Weithio
A8.1	Byddwn yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu cynlluniau lleoedd.	Capasiti staff a grantiau.	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A8.2	Byddwn yn adolygu sut rydym yn ymgysylltu â chymunedau ac yn sicrhau bod pob cymuned yn cael cyfle i fod yn rhan o ddatblygu gwasanaethau.	Capasiti staff Datblygu rhwydwaith a chyfathrebu gwell rhwng staff ymgysylltu.	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A8.3	Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein Strategaeth Gyfathrebu gan wneud y wybodaeth y byddwn yn ei rannu yn berthnasol ac yn fwy hygyrch.	Capasiti staff Cyllid Moderneiddio	Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A8.4	Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol a sianeli digidol i ddarparu mynediad mwy effeithiol ac effeithlon at wasanaethau.	Cyllid moderneiddio Cyllidebau presennol	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A8.5	Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, darparwyr cludiant a phartneriaid eraill i gynnal adolygiad sylfaenol o gludo'r cyhoedd a mynediad i wasanaethau. Byddwn yn treialu opsiynau amgen arloesol.	Capasiti staff a defnyddio adnoddau presennol yn wahanol	Tymor hir Atal Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin 2016/17	Targed	Meincnod	Amlder
M8.1	Nifer y cymunedau sy'n cael eu cefnogi i ddatblygu cynllun lleoliad	1	Dim targed	Nac oes	Blynyddol
M8.2	% y trigolion sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol Cymru)	24%	Dim targed	Cymru gyfan	Blynyddol
M8.2a M8.2b M8.2c	Nifer y cwynion % y cwynion y llwyddwyd i'w datrys ar gam 1 Nifer y canmoliaethau	284 87% 527	Dim targed		Blynyddol
M8.3	% o'r gymuned a arolygwyd a oedd yn deall prif negeseuon corfforaethol y Cyngor	Dim gwaelodlin	Dim targed	Nac oes	Blynyddol
M8.4	Nifer y trafodion cwsmeriaid sydd ar gael ar-lein	97	125	Nac oes	Blynyddol
M8.4a	% y trafodion sy'n cael eu talu / y gellir ymgeisio amdanynt ar-lein neu eu harchebu ar-lein	Dim gwaelodlin	25%	Nac oes	Blynyddol
M8.4b	% y cynnydd mewn taliadau ar-lein (trafodion)	51,447	10%	Nac oes	Blynyddol

M8.5	% y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd / gael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. (Arolwg Cenedlaethol Cymru)	Newydd	Dim targed	Cymru gyfan	Blynyddol

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Y Strategaeth Gyfathrebu
- Strategaeth Ymgysylltu
- Pecyn Cymorth Cynllun Lleoedd
- Rhaglen Foderneiddio
- Strategaeth TGCh 2017 - 2022
- Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae pob gwasanaeth yn gyfrifol am ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion Conwy – mae'n sgwrs barhaus. Gall hyn fod drwy gyswllt o ddydd i ddydd trwy'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol a grwpiau cymunedol, hyd at gyhoeddi gwybodaeth am wasanaeth a chymryd rhan mewn datblygiadau gwasanaeth.
Mae'r Gwasanaethau Addysg yn ymgynghori â chymunedau lleol o dan Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy ac maent yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd lywio'r cynllun strategol ar gyfer adeiladau ysgolion.
Maent hefyd yn cydweithio gyda Chyngor Ieuenctid Conwy ar ystod o faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ledled yr Awdurdod Lleol e.e. Cynhwysiant, gwrth-fwlio, dysgwyr diamddiffyn.
Mae'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu Cynlluniau Lleoedd ar gyfer eu hardal leol.
Mae Llyfrgelloedd yn datblygu prosiect gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ddefnyddio ein llyfrgelloedd teithiol i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor gwell i ardaloedd o amddifadedd o ran mynediad at wasanaethau.
Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu ystod o wybodaeth a chyngor i deuluoedd ac i weithwyr proffesiynol.
Drwy'r Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol fe fydd yna ddatblygiadau fel apiau, a bydd mwy o opsiynau gwasanaeth ar-lein drwy'r wefan newydd.

Sut gallwch chi gymryd rhan:

Mae'n rhaid i ni newid y ffordd rydym yn gweithio fel cyngor. Mae cymunedau eisiau perchenogi a siapio ble maent yn byw. Mae'r dyddiau pan fyddai cynghorau yn gwneud pob dim drosoch chi wedi mynd, nid oes eu heisiau ac nid ydynt bellach yn gynaliadwy.
Siaradwch â'ch Aelod Etholedig e.e. ewch i Gymhorthfa eich Aelod Etholedig a darllenwch eu hadroddiad blynyddol ar yr hyn sy'n cael ei ddatblygu yn eich ardal chi. Darganfyddwch pwy yw eich aelod etholedig drwy fynd i www.conwy.gov.uk/cynghorwyr

Ydych chi wedi ystyried bod yn Aelod Etholedig o Gyngor Tref a Chymuned neu Gyngor Sir. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma: www.conwy.gov.uk/bodyngynghorydd

Bydd datblygu eich Cynllun Lleoedd lleol fel rhan o adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol yn dylanwadu ar beth sy'n digwydd yn eich ardal chi ac rydym wirioneddol eisiau clywed eich barn ar sut y gallwn wella'r Sir. Os oes gennych chi syniadau neu am gymryd rhan, cofrestrwch ac ychwanegwch eich syniadau i Sgwrs y Sir. www.conwy.gov.uk/sgwrsysir

Cyfrannu at Nodau Lles:



Themâu Trawsbynciol (mewnol)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gryf

Themâu Trawsbynciol

Ar draws pob maes gwaith, byddwn yn sicrhau ein bod yn anelu at ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn ymdrechu i wneud y penderfyniadau gorau y gallwn yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol sy'n ein hwynebu.
Byddwn yn ystyried effaith y polisïau ar gymunedau gwledig, y rhai sy'n cael eu hamddiffyn gan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb a'r bobl sy'n byw mewn tlodi.
Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn magu hyder i fod yn flaengar. Bydd harneisio potensial technoleg i wella perfformiad, prosesau busnes ac effeithlonrwydd yn flaenoriaeth strategol dros y pum mlynedd nesaf.

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:		Adnoddau	5 Dull o Weithio
A9.1	Byddwn yn manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg i drawsnewid y ffordd y mae ein staff yn cyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd, gan edrych ar yr offer maent yn eu defnyddio yn ogystal â'r cyfleusterau a'r lleoliadau lle maent yn gweithio.	Y Rhaglen Foderneiddio	Tymor hir Integreiddio Cydweithio Cyfranogiad
A9.2	Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddull cydweithredol rhanbarthol i Lywodraeth Leol.	Amser staff	Tymor hir Cydweithio
A9.3	Byddwn yn monitro effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd er mwyn bod yn barod at oblygiadau'r ffaith bod y DU yn gadael yr UE.	Amser staff	Tymor hir Atal
A9.4	Byddwn yn parhau i ddatblygu a chefnogi ein staff.	Amser staff	Tymor hir Atal Cyfranogiad

Sut byddwn yn mesur llwyddiant:		Gwaelodlin yr arolwg staff flaenorol	Targed	Meincnod	Amlder
M9.4a	% y staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr atebol.	89%	89%	Nac oes	Bob 2 flynedd
M9.4b	% y staff sy'n teimlo eu bod yn cael yr hyfforddiant cywir i wneud eu gwaith	90%	90%	Nac oes	Bob 2 flynedd
M9.4c	% y staff sy'n teimlo bod Conwy yn cymryd y gwaith o ddatblygu ei weithlu o ddifrif	77%	77%	Nac oes	Bob 2 flynedd
M9.4d	% y staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth ymgymryd â rhannau anodd eu swyddi	87%	87%	Nac oes	Bob 2 flynedd

Mae camau gweithredu mwy manwl wedi'u rhestru yn:

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Y Rhaglen Foderneiddio
- Strategaeth TGCh
- Strategaeth Adnoddau Dynol

Sut mae Gwasanaethau yn cyfrannu at y canlyniad hwn

Mae'r holl wasanaethau yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gefnogi eu staff ac i adolygu ffordd o weithio er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd ac i foderneiddio.

Atodiad Technegol

6. Pwrpas y Cynllun

6.1 Pwrpas y cynllun hwn yw cyflwyno Blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y pum mlynedd nesaf, rhwng 2017 a 2022. Y blaenoriaethau ydi'r meysydd rydym eisiau rhoi sylw arbennig iddynt er mwyn cyflawni'r canlyniadau dinasyddion y mae pobl eu heisiau ar gyfer y sir. Mae yna gynlluniau eraill sydd yn manylu mwy am y tasgau penodol y byddwn yn eu gwneud, ac mae'r blaenoriaethau yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gwasanaeth sydd yn nodi'r gwaith 'busnes arferol' y bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu.

6.2 Mae'n rhaid i'r Awdurdod amlinellu cynllun blaenoriaethau o dan Adran 2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae Awdurdodau Lleol o dan ddyletswydd gyffredinol i

'Wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus'. Dylai awdurdodau geisio sicrhau yn barhaus bod eu hamcanion gwella yn parhau'n berthnasol, bod y trefniadau gorau ar waith i'w cyflenwi a'u bod yn gallu deall a dangos yr effaith ar y canlyniadau i ddinasyddion.'

6.3 Caiff Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ei gefnogi gan ganllaw o'r enw Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI). Yn rhan un o'r WPI, caiff gwella ei ddiffinio fel:

"Mae gwella yn golygu mwy na dim ond enillion y gellir eu mesur mewn allbwn neu effeithlonrwydd gwasanaeth, neu pa mor effeithiol yw awdurdod yn fewnol. Yn hytrach, dylai olygu unrhyw beth sy'n gwella ansawdd cynaliadwy bywyd a'r amgylchedd i ddinasyddion a chymunedau lleol."

6.4 Diben y cynllun hwn yw cydymffurfio â'r gofyniad am 'Amcanion Gwella' o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

6.5 O 1 Ebrill 2016, bydd gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru a restrir yn y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ddyletswydd i ystyried datblygu cynaliadwy, sy'n golygu ystyried lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ym mhopeth y maent yn ei wneud. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy - bod rhaid i bob corff cyhoeddus dan y Ddeddf weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod:

Anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

6.6 I wneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith o amcanion lles cenedlaethol.

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

6.7 Rhaid i bob Corff Cyhoeddus a enwir o dan y Ddeddf ddilyn 5 ffordd o weithio:

Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

6.8 Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru i gynhyrchu 'Amcanion Lles' erbyn 31 Mawrth 2017. Ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy maent wedi cael eu hymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol Conwy. Mae'r 7 nod a 5 ffyrdd o weithio wedi'u halinio i 8 Canlyniad Dinasyddion Conwy, fel yr amlinellir isod.

7 Nod Lles Cenedlaethol



Canlyniadau Dinasyddion Conwy

Mae meysydd blaenoriaeth eraill sydd wedi cael eu cymryd i ystyriaeth yn cynnwys:

Symud Cymru Ymlaen: Amcanion Lles Llywodraeth Cymru (2016-2021)

Mae'r ddogfen yn manylu ar 14 o Amcanion Lles cychwynnol Llywodraeth Cymru sydd wedi eu cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r saith nod lles a amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yr Amcanion Lles yn darparu pont rhwng Symud Cymru Ymlaen a datblygu pedwar strategaeth trawsbynciol cenedlaethol -

- Ffyniannus a Diogel
- Iechyd a Gweithgar
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu ac
- Unedig a Chysylltiedig

Mae Creu Cymunedau Cryf Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth –

- Cyflogaeth
- Blynyddoedd Cynnar
- Grymuso

Blaenoriaethau Comisiynydd Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ydi:

- Blynyddoedd Cynnar – Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Economi - Sgiliau a Chyflogaeth
- Tueddiadau poblogaeth yn y dyfodol
- Newid yn yr hinsawdd, gwydnwch amgylcheddol ac ynni
- Tlodi, amddifadedd ac ymddieithriad
- Cydgysylltedd – cludiant, isadeiledd
- Isadeiledd Gwledig a Ffermio
- Anghydraddoldebau iechyd -gofal iechyd ataliol
- Cymunedau cryf - iaith, isadeiledd, a thai fforddiadwy

7 Sgwrs y Sir

7.1 Ymgysylltu â dinasyddion

Er mwyn ddatblygu ein blaenoriaethau ar gyfer Conwy, roedd gennym 2 ymagwedd; asesiad o les yn seiliedig ar ddadansoddiad demograffig o wybodaeth am y sir, a datblygu sgwrs gyda chymunedau lleol. Roeddem eisiau siarad â chynifer o bobl â phosibl i ganfod eu barn am beth sy'n gweithio'n dda yng Nghonwy ac ar beth y mae angen i ni ganolbwyntio nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fe wnaethom ofyn i bobl siarad am eu profiadau a'u cymunedau er mwyn i ni ddeall ychydig mwy am bryderon lleol - a chryfderau. Fe wnaethom rannu eu safbwyntiau gyda chyrff cyhoeddus statudol eraill sy'n gweithio yn lleol, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd, yr Heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Tân ac Achub. Defnyddiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r adborth cymunedol i helpu i lywio'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol.

Trwy Sgwrs y Sir roeddem ni eisiau osgoi gofyn i bobl roi sylwadau ar ddogfennau trwchus, neu ar ganlyniadau strategol a oedd wedi'u pennu'n flaenorol. Fe wnaethom ofyn 5 cwestiwn penagored syml:

1. Beth yw'r peth gorau am (pwnc penodol) yn eich ardal chi?
2. Beth yw eich her fwyaf am hyn yn eich ardal?
3. Pam bod hyn yn bwysig i chi?
4. A oes gennych chi unrhyw syniadau am sut y gellir gwneud hyn yn well?
5. O gofio bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn wynebu toriadau, pwy arall allai gyflawni'r newidiadau?

Yn gyntaf, gyda chymorth Llais y Gymuned, buom yn siarad gyda bron i 30 o grwpiau cymunedol, oedd yn cwmpasu ystod o fuddiannau cymunedol mewn cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig. Fe wnaethom hyrwyddo Sgwrs y Sir drwy Bwletin Conwy – sy'n cael ei ddarparu i bob cartref yn y Sir a drwy ein e-fwletin i Fusnesau. Fe wnaethom hefyd lunio pecyn gwaith hyrwyddo a chyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chynghorau Tref a Chymuned i annog pobl leol i gymryd rhan.

Yn ail, fe wnaethom ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Sgwrs y Sir ac i ddiweddaru pobl am y sylwadau roeddem yn eu derbyn ac i alluogi pobl i lenwi holiaduron ar-lein. Fe wnaethom hyrwyddo cyfryngau cymdeithasol drwy grwpiau cymunedol a gwirfoddol, rhwydweithiau busnes, ein partneriaid a staff o'r sector cyhoeddus, defnyddio posteri a chardiau post.

Yn ogystal, fe wnaethom edrych ar yr hyn roedd pobl wedi ei ddweud wrthym eisoes. Rydym yn gwybod bod pobl yn gorfod dweud eu barn yn aml am faterion yn ymwneud â datblygiadau gwasanaeth, felly fe wnaethom edrych ar adborth cymunedol roeddem wedi'i dderbyn dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys ymgynghoriadau gwledig, ymgynghoriadau plant a phobl ifanc a gweithdai, (gan gynnwys ffermwyr ifanc), ac ymgysylltu â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a oedd yn cynnwys adborth gan grwpiau oedd â nodweddion a ddiogelir.

Fe wnaethom gyfathrebu â chroestoriad eang o'r gymuned:

- ✓ Grwpiau a fforymau cymunedol
- ✓ Preswylwyr
- ✓ Unigolion ag anableddau
- ✓ Busnesau
- ✓ Grwpiau ffydd
- ✓ Cynghorau Tref a Chymuned
- ✓ Cyngor Ieuenctid
- ✓ Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru
- ✓ Cyrff statudol

Fe wnaethom fonitro Sgwrs y Sir er mwyn sicrhau ein bod wedi derbyn adborth o bob ystod oedran, pob ardal ddaearyddol o'r sir a phob maes pwnc. Fe wnaethom hefyd gynnal gweithdai gydag aelodau etholedig i gael eu barn. Mae sgyrsiau yn hanfodol i glywed barn y gymuned, ond mae'n bwysig rheoli disgwyliadau nad yw ymgysylltu bob amser yn cyrraedd consensws barn, a thrwy flaenoriaethu, byddai angen i'r Cyngor gyflawni cyfrifoldebau mwy eang.

Y CYMUNEDAU RYDYCH WEDI SÔN AMDANYNT



462 Comments through the website
595 Comments from Group consultations

2,418 people represented by the feedback
377 registrations

Dadansoddiad yn ôl Pwnc



Dadansoddiad yn ôl Rhyw



Dadansoddiad yn ôl Oedran



Dadansoddiad yn ôl Crefydd



Dadansoddiad yn ôl Grŵp Ethnig



Dadansoddiad yn ôl Anabledd



Math o Anabledd



Er ein bod yn hyderus ein bod wedi estyn allan at drawstoriad eang o'r gymuned, o ran daearyddiaeth a nodweddion a ddiogelir, rydym yn teimlo y gallwn wneud mwy wrth i Sgwrs Sir ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf i wella pa mor drylwyr y byddwn yn ymgynghori â rhai o'r grwpiau mwy eu cyrraedd a allai fod wedi cael eu tangynrychioli.

Er bod yr ymarferiad ymgysylltu yn ddefnyddiol iawn, mae'n amlwg nad yw'r adborth a gawsom yn gynrychioliadol o boblogaeth yr holl sir. Drwy weithio drwy'r canfyddiadau gydag Aelodau Etholedig, sef llais y gymuned a etholwyd yn ddemocrataidd, roeddem yn gallu sicrhau bod yna gynrychiolaeth o lais y gymuned ym mhob ward ar draws y sir.

7.2 Asesiad o ddadansoddiad demogra**ff**eg Lles

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn datgan bod rhaid i Asesiad o Les Lleol gael ei gynhyrchu i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yn y broses o bennu Amcanion Lles ac wrth gynhyrchu unrhyw gynlluniau a nodwyd i wella lles y bobl sy'n byw yn eu hardal. Yn ogystal â Sgwrs y Sir, mae Asesu Lles yn cynnig dadansoddiad o ddata demograffeg a wyddom am yr ardal.

Byddai disgrifio pob agwedd o les yn dasg enfawr, felly nod yr Asesiad yw darparu dim ond amlinelliad o'r materion mwy strategol sy'n effeithio ar siroedd Conwy a Dinbych. Wrth lunio'r Asesiad rydym wedi cymryd ymagwedd 'arwain drwy ymgysylltu'. Nid yw'r daith wedi dechrau gyda syniadau rhagdybiedig na dadansoddi data haniaethol, ond gydag ymgysylltu helaeth gyda chymunedau lleol drwy'r Sgwrs y Sir a'r staff sy'n gweithio yn y sefydliadau sector cyhoeddus gwahanol. Cafodd pobl eu hannog i siarad am gryfderau a gwendidau byw yn yr ardal neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl.

Mae'r Asesiad yn grwpio'r hyn roedd pobl yn i'w ddweud mewn i bynciau strategol ac yn edrych ar y data a phapurau ymchwil ategol i weld lle mae tystiolaeth gadarn i gefnogi'r canfyddiadau a theimladau. Yn benodol, rydym wedi ceisio ystyried goblygiadau pob pwnc ar les yr unigolyn a sut mae'n cyfrannu at y 7 gôl lles a nodir yn y Ddeddf.

Yn ogystal â darparu dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol, mae cymaint o ddata ag sy'n bosibl wedi cael ei gasglu er mwyn tracio cynnydd dros amser ac ystyried sut y gallai'r dyfodol edrych os ydi'r tueddiadau presennol yn parhau. Mae'r Asesiad Lles yn cael ei gyhoeddi ar-lein yma http://conwyanddenbighshirepsb.org.uk/home/english-wellbeing-assessment/

7.3 Datblygu'r Blaenoriaethau

Ar ôl cwblhau adolygiad o'r adborth a dderbyniwyd o Sgwrs y Sir a'r canfyddiadau o fewn yr Asesiad Lles, fe wnaethom ddefnyddio'r wybodaeth i bennu'r blaenoriaethau o fewn y cynllun drafft.
Cafodd y canfyddiadau eu blaenoriaethu drwy ddefnyddio asesiad o'r effaith a fforddiadwyedd blaenoriaeth ac ystyried y 5 ffordd o weithio. Fe wnaethom hefyd adlewyrchu ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r cysylltiadau i nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd yr ymarfer hwn ei gwblhau gydag Aelodau Etholedig, Uwch Dîm Rheoli a'r Fforwm Rheolwyr.

8 Datganiad Lles a Datganiad o Gyfrifoldeb

8.1 Datganiad Lles

8.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ganlyniadau cenedlaethol ac yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd penderfyniadau. Dylai fod yn egwyddor trefnu ganolog i ystyried effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd penderfyniadau. Mae'r blaenoriaethau a gyhoeddwyd yn y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu rhwymedigaeth y Cyngor o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyhoeddi Amcanion Lles.

8.1.2 Mae'r Cyngor o'r farn y bydd ei Amcanion Lles yn cyfrannu at gyflawni nodau lles gan fod pob Canlyniad Dinesydd wedi'i alinio â Nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y dangosir ar dudalen 33. Mae'r broses o asesu camau blaenoriaeth wedi'u hadlewyrchu yn y 5 ffordd o weithio ac mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys camau gweithredu sy'n ataliol nid yn adweithiol, ac maent yn anelu at weithio tuag at effaith tymor hwy, wedi'u hintegreiddio wrth ystyried y modd y maent yn cyfrannu at y 7 Gôl Lles, ac maent yn gydweithredol o ran y ffocws ar weithio'n agos â chymunedau fel eu bod

yn cymryd perchenogaeth a gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu Canlyniadau Dinesydd. Mae blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol wedi cael eu hystyried gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Dinbych i fyfyrio ar ble mae blaenoriaethau yn effeithio ar sefydliadau cyhoeddus eraill a lle mae cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

8.1.3 Roedd cymunedau yn rhan wrth ddatblygu'r blaenoriaethau, a bydd y Cyngor yn parhau i gynnwys cymunedau yn y dyfodol, yn enwedig trwy gysylltu trafodaethau cymuned leol drwy ddatblygu cynlluniau lleoedd. Mae ein themâu trawsbynciol yn cyfeirio at bwysigrwydd asesu ein gweithredoedd a'n penderfyniadau allweddol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar drechu tlodi, cydraddoldeb a hyrwyddo'r Gymraeg. Ni all tlodi a chydraddoldeb gael ei gwtogi i un neu ddau o gamau gweithredu neu fesurau, a nod gyffredin y blaenoriaethau a ddewiswyd yw cael effaith gadarnhaol er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd sylfaenol hyn drwy wella addysg, tai, diogelwch, cyfleoedd swyddi, effaith amgylcheddol a lles cyffredinol. Mae hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eithriadol o bwysig i'r Cyngor, a chaiff hyn ei annog. Trwy nifer o rwydweithiau plant a phobl ifanc, mae yna draddodiad o gynnwys pobl ifanc i gael dweud eu dweud yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn ychwanegol at ddefnyddio adborth nifer o drafodaethau plant a phobl ifanc, mae Cabinet y Cyngor wedi gweithio gyda Chyngor Ieuenctid Conwy i ddatblygu'r blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol. Nid digwyddiad unigryw hyn, yn hytrach mae'n rhan o drafodaeth barhaus sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd.

8.1.4 Roedd y broses ymgysylltu a wnaed drwy Sgwrs y Sir yn monitro ymatebion i sicrhau bod yr adborth yn cynrychioli pob rhan o'r sir, pob Nod Lles, pob grŵp oedran a phob nodwedd a ddiogelir. Nid yw Sgwrs y Sir yn ddigwyddiad 'unigryw'. Byddwn yn parhau â Sgwrs y Sir er mwyn sicrhau bod pobl o bob cefndir yn cael parhau i gymryd rhan. Y rhan o fewn y Cynllun Corfforaethol - sut y gallwch chi gymryd rhan, yw'r cam cyntaf i sicrhau ein bod yn gweithio gyda dinasyddion i gyflawni'r Nodau Lles ac yn parhau â'n hawydd i newid perthynas y Cyngor gyda'r dinasyddion i fod yn un o gydweithio yn hytrach na dibyniaeth lwyr, lle y bo'n briodol. Rydym wedi gosod blaenoriaeth gorfforaethol i adolygu ein dull o ymgysylltu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y Sir ac i ddatblygu cynllun gwaith i'r dyfodol fel y gallwn ddangos sut a phryd y gall pobl gymryd rhan a sut yr ydym yn rhoi adborth i'r gymuned. Gweler adran 11.

8.1.5 Mae gan bob blaenoriaeth adnoddau sydd wedi'u dyrannu, a bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol. Byddwn yn adolygu cynnydd ar yr Amcanion Lles bob chwe mis ac yn adrodd yn flynyddol ar yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni. Bob mis Mawrth, byddwn yn adolygu'r Cynllun Corfforaethol er mwyn asesu os yw'n dal i fod yn berthnasol ac yn fforddiadwy.

8.1.6 Dylai'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol gael eu bodloni erbyn diwedd cyfnod y weinyddiaeth hon, hy 2022. Bydd rhai blaenoriaethau yn cael eu cwblhau yn gynt a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y diwygiadau a wneir ym mhob adolygiad blynyddol o'r Cynllun Corfforaethol.

8.2 Datganiad o Gyfrifoldeb

8.2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("yr Awdurdod") yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cynllunio busnes yn unol â phob deddfwriaeth berthnasol.

8.2.2 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyflawni'r rhwymedigaeth statudol i wneud trefniadau ar gyfer gwelliannau a chyhoeddi Datganiad Lles.

8.2.3 Wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol hon, mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol. Mae'r wybodaeth a'r asesiadau a adroddir yn y Cynllun hwn yn seiliedig ar y system hon o reolaeth.

8.2.4 Mae effeithlonrwydd ein hamgylchedd rheoli'n cael ei adolygu fel rhan o'n trefniadau llywodraethu. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn yn gywir a chyflawn, ym mhob agwedd o bwys a bod y targedau ar gyfer gwella a amlinellir yn yr adroddiad yn gywir.

8.2.5 Mae'r Awdurdod yn adrodd ar berfformiad mewn 2 gam.

Cam 1 Cynllunio ar gyfer Gwella

Y cynllun strategol pum mlynedd hwn, sef 'Cynllun Corfforaethol Conwy 2017 – 2022', yw cynllun gwella strategol Cyngor Bwrdeistref Conwy ac mae'n cynnwys Datganiad Lles yr Awdurdod. Cymeradwywyd y Cynllun ar ffurf drafft ym mis Mawrth 2017 a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ffurfiol ar ôl Etholiadau Cyngor Sir ym mis Mai 2017 - dim hwyrach na mis Medi 2017.

Cam 2 Adrodd ar Gyflawni'r Cynllun

Erbyn 31 Hydref bob blwyddyn bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y flwyddyn ariannol flaenorol, gan fanylu ar lefel perfformiad y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni ei flaenoriaethau. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ac yn cael ei gyhoeddi yn syth wedyn.

8.3 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb

8.3.1 Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011, mae gan y Cyngor Gynllun Strategol Cydraddoldeb 2016 - 2020, Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Pholisi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yn unol â'r polisi hwn, gwnaethpwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Yn ogystal, mae sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a/neu Asesiadau llawn o Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob gweithred yn y Cynllun lle y bo'n briodol.

9.0 Rheolaeth Ariannol

9.1 Mae Fframwaith Ariannol Tymor Canolig (MTFF) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn nodi'r dull strategol o reoli ei gyllid ac yn ceisio rhagweld rhai o'r materion ariannol a fydd yn wynebu'r Cyngor dros gyfnod pum mlynedd y weinyddiaeth wleidyddol, gan gadw mewn cof bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn gwneud rhagfynegiadau o'r fath yn hynod debygol o gael eu newid.

9.2 Nod yr MTFS yw darparu fframwaith i gefnogi ystyriaethau cynllunio ar gyfer y tymor canolig. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y bydd y gyllideb yn paratoi'r Cyngor at y cyfnod sydd i ddod yn hytrach na dim ond ceisio mantoli materion fesul blwyddyn. Mae hyn wedi profi i fod yn ddull gweithredu llwyddiannus yn y gorffennol ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi gallu cynllunio arbedion mewn ffordd resymegol a chynhwysol heb orfod gwneud penderfyniadau brysiog.

9.3 Ni all yr MTFS fodoli ar ei ben ei hun – mae costau'r Cyngor wedi eu seilio ar amrywiaeth o anghenion darparu gwasanaeth ac o gyfrifoldebau statudol y mae'n rhaid darparu ar eu cyfer a'r rheiny wedi eu seilio ar anghenion demograffig y sir ac mae'n rhaid canfod adnoddau ar eu cyfer. Felly, mae gan yr MTFF gysylltiadau cryf â chyfeiriad strategol y Cyngor fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol 2017 - 2022.

9.4 Adolygir y prif elfennau sy'n ffurfio'r MTFS yn flynyddol. Mae'r MTFF yn offeryn allweddol ar gyfer rheolaeth ragweithiol ariannol a bydd yn sail i'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau bod anghenion adnoddau'r Cyngor yn cael eu canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol, ac yn caniatáu ar gyfer adnabod gofynion/ materion ariannu a ragwelir ar gyfer y dyfodol yn ddigon buan er mwyn cymryd camau priodol.

9.5 Mae'r goblygiadau o ran adnoddau sy'n sail i'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys mewnbwn sydd yn amrywio o gapasiti swyddogion i fynd ar drywydd cyllid allanol sylweddol, i helpu i gyflawni blaenoriaethau allweddol dros gyfnod y cynllun. Mae'n deg dweud nad yw'r Cynllun Corfforaethol ynddo'i hun yn ffurfio sail ar gyfer newid mewn cyllid o'n cyfrifoldebau statudol i ddim ond yr elfennau hynny a nodwyd yn y Cynllun.

9.6 Erbyn hyn, mae'n rhaid i bob blaenoriaeth gael eu gweld a'u barnu yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael a'r ffaith anochel na fydd ein hawydd i wario yn cyfateb â'n gallu i wario.

10.0 Monitro Cynnydd ac Adrodd ar Gyflawniadau

10.1 Yn unol â'n Fframwaith Rheoli Perfformiad, bob chwech mis byddwn yn adolygu pob maes gwasanaeth i ddarparu cymorth a her, ac i fonitro ein cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, blaenoriaethau eu Cynllun Gwasanaeth, prif risgiau, mesurau perfformiad, cyflawniadau, a meysydd gwella. Mae canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn cael eu dogfennu a'u cyflwyno i'r Uwch Reolwyr ac Aelodau Etholedig mewn Adroddiad Perfformiad Corfforaethol. Mae copïau o'r adroddiadau chwe misol i'w gweld ar ein gwefan.

10.2 Byddwn hefyd yn adolygu ein prosesau i fonitro'r modd y gweithredir camau Cynllun Blaenoriaeth Conwy. Bob blwyddyn, erbyn 31 Hydref, byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn ariannol flaenorol i sicrhau'r ymrwymiadau a wnaed gennym yn y Cynllun Blaenoriaeth. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o'n llwyddiannau allweddol, mesurau perfformiad a'r meysydd lle mae angen i ni wneud gwelliannau pellach.

11.0 Adolygiad Rheolaidd - sgwrs barhaus

11.1 Dechrau'r Sgwrs yn unig yw Sgwrs y Sir - bydd Sgwrs y Sir yn parhau fel y gallwn adolygu'r Cynllun Corfforaethol yn flynyddol ond hefyd er mwyn i ni allu datblygu cynlluniau megis Cynlluniau Lleoedd gyda chymunedau ar lefel leol. Neges gref a dderbyniwyd gan yr adborth a gawsom oedd bod pobl yn awyddus i fod yn rhan o'r penderfyniadau am eu cymunedau lleol, i wybod beth yw'r problemau ac i rannu'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â hwy.

11.2 Ein dull o gadw Sgwrs y Sir i fynd fydd datblygu cynllun gwaith i'r dyfodol o ymgysylltu a drefnwyd er mwyn i ddinasyddion benderfynu beth a phryd y byddant yn dymuno cymryd rhan. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi gosod cynllun blaenoriaeth gorfforaethol i adolygu ein dull ymgysylltu presennol ac o hyn, byddwn yn datblygu cynllun ymgysylltu ac yn gweithio i ehangu ein cronfa ddata o fudd-ddeiliaid i ymgysylltu â nhw.

11.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i gael barn Dinasyddion Conwy er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwybod barn y gymuned, yn cynnwys dinasyddion mewn datblygiadau ac yn rhoi adborth iddynt ar y cynnydd rydym yn ei wneud. Yr Aelodau sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd, sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r dinasyddion yn eu ward, ac sy'n chwarae rhan allweddol wrth gynrychioli a chyfleu barn y gymuned, yw un o'r sianeli cyfathrebu allweddol. Mae pob penderfyniad allweddol yn cael ei gymeradwyo gan Aelodau Etholedig.

11.4 Mae cynnwys y gymuned yn y broses o adnabod meysydd ar gyfer gwelliant yn bwysig ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi datblygu deialog parhaus o fwydo cynnydd yn ôl a thrafod anghenion y dyfodol trwy gyfrwng Bwletin Conwy, cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol, datblygiad parhaus y cynlluniau lleoedd gydag Aelodau lleol a Chynghorau Tref, a thrafodaethau parhaus gyda phartneriaid allweddol drwy fforymau partneriaeth.

11.5 Mae cynnwys y gymuned wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu prosiectau penodol, a thrwy hynny'n sicrhau bod y gymuned nid yn unig yn rhan o osod amcanion, ond hefyd yn bartneriaid wrth ddatblygu prosiectau a ddechreuwyd i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys deialog cymunedol parhaus ar brosiectau sylweddol fel Moderneiddio Ysgolion Cynradd, Llyfrgelloedd, Moderneiddio Gofal Cymdeithasol, Ailgylchu Gwastraff, Rhaglen Adfywio Cyffordd Llandudno, Rhaglen Adfywio Llanrwst, Rhaglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid (Bae Colwyn), fforymau Strydlun, fforymau landlordiaid, fforymau rheoli cyrchfan, fforymau busnes, a gwaith risg llifogydd cymunedol. Mae unrhyw faterion a gododd wedi cael eu bwydo yn ôl i wasanaethau perthnasol a gwnaethpwyd newidiadau lle bo'n briodol.

11.6 Byddem yn croesawu eich barn - i gymryd rhan, cyfeiriwch at y manylion ar dudalen 4.

12 Ble i gael rhagor o wybodaeth am y Cyngor

- Ein gwefan www.conwy.gov.uk
- Gwefannau Cymdeithasol - Gallwch ein dilyn ar Twitter ac ar Facebook
- Mae Uned Ddata Llywodraeth Leol yn casglu, cyflwyno ac yn cymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Mae adroddiad mesur perfformiad sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed yng Nghonwy dros nifer o flynyddoedd i'w weld ar ein gwefan:

  www.lgdu-wales.gov.uk

  www.fynghyngorlleol.info

  www.conwy.gov.uk/atebolrwydd
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn arolygu perfformiad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar: www.sac.gov.uk
- Mae Estyn yn arolygu pob ysgol gynradd, pob ysgol uwchradd a phob Awdurdod Addysg Lleol ledled Cymru. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: www.estyn.co.uk
- Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arolygu ansawdd sefydliadau gofal cymdeithasol ac ansawdd rhywfaint o ddarpariaethau blynyddoedd cynnar y Sir. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: www.aggcc.org.uk

Gallwch ddod o hyd i gopi o fersiwn dechnegol y Cynllun Corfforaethol a'r fersiwn Gryno o'r Cynllun Corfforaethol yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan. www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol

Gallwch hefyd gael mynediad i'r cynllun ar ein cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus am ddim sydd yn holl Lyfrgelloedd y Cyngor ac yn nerbynfeydd Bodlondeb a'r Swyddfeydd Dinesig.

Er mwyn bod yn gynaliadwy a lleihau costau argraffu, mae nifer gyfyngedig o gopïau papur o'r Cynllun Corfforaethol ar gael yn y lleoliadau canlynol:

Llyfrgelloedd y Cyngor	Swyddfeydd y Cyngor Bodlondeb, Conwy
Llyfrgell Deithiol	Swyddfeydd y Cyngor, Mochdre
Gwasanaeth i Bobl Sy'n Gaeth i'w Tai	Swyddfeydd Coed Pella, Bae Colwyn (agor 2018)

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01492 574000.